# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 16 Mai 2023

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 22 Mai 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau F_PR**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 F_PR**

3. **Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS Chwarter 3 2022/23 F_PR**

4. **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 F_PR**

5. **Dyletswydd Trais Difrifol F_PR**

6. **Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) F_PR**

7. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny F_PR**

8. **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft F_PR**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS Chwarter 3 2022/23** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS a gynhelir bob chwarter. |

**CEFNDIR:**

Gweler yn amgaeedig Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS ar gyfer Chwarter 3 2022/23.

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol am ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2022. Mae'n cynnwys gwybodaeth reolaethol ynghylch y camau a gymerwyd yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill ynghylch diogelu lles plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS (Ceredigion) yn trafod yr wybodaeth reolaethol er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnir.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a materion eraill yn y maes gwaith hwn.

Hefyd, rhennir gwybodaeth am berfformiad â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n rhoi cyfle arall i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion o bwys yn y Rhanbarth.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:**

- Yn Chwarter 3, bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant / pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 2. Derbyniwyd 1112 o gysylltiadau / adroddiadau yn Chwarter 3 o'i gymharu â 1030 yn Chwarter 2.
- Bu cynnydd yng nghyfanswm y cysylltiadau / adroddiadau a arweiniodd at gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Roedd 193 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 171 yn Chwarter 2.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 17.3% o'i gymharu â 16.7% yn Chwarter 2.
- Yn Chwarter 3, aeth 7.3% o'r adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47 o'i gymharu ag 8.3% yn Chwarter 2. Roedd angen i 0.97% o'r adroddiadau symud ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 2 o'i gymharu ag 1.6% yn y chwarter hwn, sef Chwarter 3. Felly bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3 a arweiniodd at gynnydd yn nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd a chynnydd yn nifer y plant a oedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 31 o'i gymharu ag 16 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant oedd 28 o'i gymharu â 13 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 81 o'i gymharu ag 86 yn Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cafodd 59 o'r ymholiadau eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu a chafodd 22 eu cynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel Asiantaeth Sengl.
- Y prif gategorïau o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 3 oedd cam-drin corfforol (40), cam-drin / camfanteisio'n rhywiol (15), esgeulustod (13) a cham-drin emosiynol (9). Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â'r hyn a welwyd yn Chwarter 2.
- Roedd 49 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 46 ar ddiwedd Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cofrestrwyd 29 o dan y categori cam-drin emosiynol / seicolegol, 14 o dan y categori esgeulustod a 6 o dan y categori esgeulustod a cham-drin corfforol.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 49 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/12/2022 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol a rhieni'n gwahanu.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a / neu eu hesgeuluso, gyda 128 oedolyn yn cael eu hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 113 yn Chwarter 2. Yn arbennig, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl yn ystod mis Tachwedd (67) o'i gymharu â 53 ym mis Hydref a 37 ym mis Rhagfyr. Nid yw'n glir pam y bu cymaint o gynnydd yn y mis hwnnw, ond roedd yr adroddiadau'n ymwneud â phryderon ynghylch cam-drin domestig.
- Unwaith eto y categori o gam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol / seicolegol, gyda 64 adroddiad yn datgan mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (51), yna cam-drin ariannol (42), cam-drin corfforol (33) a cham-drin rhywiol (23). Mae hyn yn dilyn patrwm y chwarter blaenorol.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch pob categori o gam-drin, menywod oedd mwyafrif y bobl yr adroddwyd eu bod mewn perygl, ac roedd nifer y menywod yn sylweddol uwch na nifer y dynion. Fodd bynnag, o ran cam-drin ariannol adroddwyd bod bron yr un nifer o ddynion a menywod mewn perygl (20 dyn, 22 menyw).

- Yn Chwarter 3, yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau (40) o'i gymharu â Chwarter 2 lle gwelwyd mai'r brif ffynhonnell oedd Asiantaethau Darparu (30). Yn Chwarter 3, roedd nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn sylweddol uwch nag unrhyw asiantaeth arall. Y ffynhonnell â'r ail nifer uchaf oedd Asiantaethau Darparu (26).

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***
Caiff yr adroddiadau hyn eu darparu yn barhaus ac maent yn dangos y gwaith parhaus a wneir i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol. |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt. |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod. |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â buddiant a cheisio eu safbwyntiau, ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |

**ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr awdurdod lleol.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Er mwyn monitro trefniadau llywodraethu gweithgarwch yr awdurdod lleol a'i asiantaethau partner.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cyswllt:** | **Audrey Somerton-Edwards** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Plant a Theuluoedd** |

**Dyddiad:** **6 Ebrill 2023**

**Acronymau:**

Rhan 4 – Honiadau yn erbyn aelod o staff neu rywun sy’n gweithio â phlant, e.e. gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, grwpiau chwarae, ac ati.

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

**Adroddiad Rheoli Perfformiad**

**Chwarter: 3**

**1.10.22 – 31.12.22**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 6 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | 8 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 6:<br>Y Gofrestr Amddiffyn Plant | 17 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 19 |
| ADRAN 8:<br>Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) | 20 |
| ADRAN 9:<br>Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 22 |
| ADRAN 10:<br>Gwasanaethau Dysgu | 25 |
| ADRAN 11:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 30 |
| ADRAN 12:<br>Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) | 36 |
| ADRAN 13:<br>Diogelu Oedolion | 43 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2022. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:


Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gorff-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 193 | 171 | 221 | 154 | 122 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni) | 16 | 7 | 5 | 8 | 4 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 1 | 2 | 4 | 2 | - |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | 1 | 1 | - | - | - |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)** | **18** | **10** | **9** | **10** | **4** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **35** | **21** | **13** | **21** | **8** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Throsglwyddo a Chyn Geni) | 30 | 14 | 8 | 19 | 6 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | 1 | 2 | 4 | 2 | - |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | - | - |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **31** | **16** | **12** | **21** | **6** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 4 | 5 | 1 | - | 2 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **17** | **16** | **19** | **13** | **13** |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)** | **17** | **16** | **19** | **13** | **13** |
| Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **39** | **26** | **43** | **23** | **34** |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni** | **39** | **26** | **43** | **23** | **34** |
| **Cyfanswm y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **11** | **13** | **29** | **11** | **19** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 28 | 13 | 14 | 12 | 15 |


**<u>Dadansoddiad:</u>**
Roedd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau gweithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.
Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 74%.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant




## Dadansoddiad:

Yr Heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn ystod y chwarter hwn; mae'r gyfradd ysgolion wedi parhau i gynyddu.







## Dadansoddiad:


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 3 2022/2023 (1 Hydref – 31 Rhagfyr)** | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch gwybodaeth plant | | | |
| Cysylltiadau/Atgyfeiriadau<br>1112 | Trafodaethau Strategaeth<br>17.3% | Ymholiadau Adran 47<br>7.3% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant<br>1.6% |

Yn Chwarter 2 roedd 1030 o gysylltiadau/atgyfeiriadau ac o'r rhain aeth 16.7% ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, aeth 8.3% ymlaen i Ymholiad Adran 47, ac aeth 0.97% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant




**Dadansoddiad:**
Y pryderon pennaf a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant yn Chwarter 3 oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin/camfanteisio'n rhywiol. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant heb eu geni** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd** |
| 18 | 34 | 1 | 18 | 31 | 2 |


**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

Cofnodwyd bod 35.3% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth. Roedd y ganran isel a gwblhawyd mewn pryd oherwydd nad oedd staff ar gael ar gyfer 7 teulu yn cynnwys 19 o blant, ar gyfer teulu arall gyda 2 o blant roedd hyn oherwydd y ffaith bod angen rhannu datgeliad gyda rhiant, ac ar gyfer y teulu arall gydag 1 plentyn roedd hyn oherwydd argaeledd y tad.

Mae'n bwysig nodi yn y rhan fwyaf o achosion mae Cynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achos yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 100.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.





| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer y plant heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru |
| 17 | 39 | - | 16 | 11 | 28 | 14 |


**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 28 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 14 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth, gyda'r 14 plentyn arall yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 89.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Y rheswm am yr oedi wrth gynnal cynadleddau mewn pryd ar gyfer 1 teulu gyda 2 o blant oedd argaeledd staff, ac yn achos teulu arall gyda 2 o blant cafodd y gynhadledd ei gohirio oherwydd argaeledd y rhiant.




| Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol Chwarter 2 mewn cromfachau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed) | *Presenoldeb plant yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn) | *Plant y penodwyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer |
| 100% (100%) | 85% (79%) | 100%(100%) | 84% (91%) | 89% (93%) | 4% (14%) | 22% (33%) |



Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 49 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredgion ar 31 Rhagfyr 2022
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
43
43
42
40
38
35
8
6
6
6
6
5
Cam-drin Domestig
Rhieni'n gwahanu
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol
Rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant
Troseddau treisgar gan oedolion
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu
Ymddygiad cymryd risg/camddefnyddio sylweddau
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant
Anhawster dysgu rhieni



Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 46 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredgion ar 30 Medi 2022
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
42
34
34
33
30
20
14
6
5
5
2
0
Cam-drin Domestig
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol
Rhieni'n gwahanu
Troseddau treisgar gan oedolion
Rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu
Anableddau dysgu'r rhieni
Ymddygiad…
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant


| Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 49 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Rhagfyr 2022 | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau a Phroblemau Iechyd Meddwl Rhieni) | 35 | 71.4% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu yn y Carchar yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 44 | 89.8% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl Rhieni, Rhieni'n Gwahanu ac yn y Carchar) | 5 | 10.2% |

**Dadansoddiad:**
Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, anawsterau iechyd meddwl rhieni a rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol.

**Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:**






Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 3 yn bresennol.
Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Roedd 1 Gynhadledd Amddiffyn Plant (1%) ar gyfer plentyn wedi argymell galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Roedd 70 (95%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddienw, gyda 4 (5%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.
Roedd 1 Gynhadledd Amddiffyn Plant (1%) ar gyfer plentyn wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Cafodd 9 (12%) o blant eu nodi fel gofalwyr ifanc.
Ar gyfer 12 (17%) o blant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.
Ar gyfer 7 (9%) o bobl ifanc nodwyd bod ganddynt anabledd dysgu cymedrol / difrifol, a nodwyd bod gan 3 (4%) o bobl ifanc Gynllun Datblygu Unigol.
Nodwyd bod gan 0 (0%) o blant anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, a nodwyd bod anawsterau o ran ymddygiad gan 12 (16%) o bobl ifanc.
Nodwyd bod gan 3 (4%) o blant anawsterau lleferydd/iaith, a nodwyd bod 5 (8%) person ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol.

## ADBORTH PLANT A RHIENI

Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod y rhan fwyaf o Gynadleddau yn cael eu cynnal yn rhithiol.


Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2022, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i geisio eu barn a'u hadborth.


| ADBORTH PLANT A RHIENI | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparwyd holiaduron gwerthuso i blant/pobl ifanc (o oedran/lefel dealltwriaeth briodol), rhieni a gofalwyr a fynychodd Gynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Dosbarthwyd cyfanswm o 46 holiadur a chwblhawyd 3 (6.5%). Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ymatebion. | | | | | | |
| | **Sut oedd lleoliad ac amser y gynhadledd?** | | | **Oeddech chi'n teimlo'n barod i fod yn bresennol yn y gynhadledd?** | | |
| | Addas iawn | Iawn | Anaddas | Oeddwn | Ddim yn siŵr | Ddim o gwbl |
| Plant | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Rhieni | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Gofalwyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau'r Teulu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Oeddech chi'n gallu dweud eich dweud?** | | | **Oeddech chi'n teimlo bod eich barn chi'n cyfrif?** | | |
| | Oeddwn | Dim digon | Nac oeddwn | Oeddwn | Peth | Ddim o gwbl |
| Plant | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Rhieni | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Gofalwyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau'r Teulu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


| | **Hoffech chi ddweud rhywbeth a allai ein helpu i wella'r broses?** | **Y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol i fynd i'r afael â phryderon** |
|---|---|---|
| Plant | • Hoffem i siarad ar fy rhan i | |
| Rhieni | • Nid oedd ein plentyn yn cael mynychu a chawsom ein hannog i beidio â chael cymorth.<br>• Na, rwy'n credu bod popeth wedi mynd yn dda a hoffwn ddiolch i bawb sydd oedd cymryd rhan. | |
| Gofalwyr | • | |
| Aelodau'r Teulu Estynedig | • | |


Bydd y broses hon yn parhau hyd nes bod y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

## ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant






| **Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:**<br>**Cofrestr Amddiffyn Plant:** | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn ei ddatgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Hyd-Rhag | 230.7 |

| **Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gorff-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** | **Gorff-Medi 2021** | **Ebr-Meh 2021** | **Ion-Maw 2021** |
| Nifer y plant oedd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 |

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

| Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant | Cyfanswm yr achosion | Cyfanswm y cyfarfodydd |
|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio ar blentyn | **16** | **26** |
| Pryderon ynghylch esgeulustod | **7** | **11** |
| Pryderon ynghylch cam-drin rhywiol | **4** | **5** |
| Pryderon ynghylch cam-drin corfforol | **3** | **9** |
| Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol | **2** | **2** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll | **6** | **9** |
| Pryderon ynghylch salwch ffug posibl | **1** | **2** |
| Pryderon ynghylch anaf nad oedd yn ddamweiniol o bosib | **1** | **1** |
| Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd | **10** | **10** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | | **75** |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn** | **50** | |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu | Aros | B | 16 | C | Ie | 24.10.22<br>15.11.22<br>21.12.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAFCASS, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd |
| Adolygu | Aros | B | 14 | C | Ie | 13.10.22<br>08.11.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAMHS |
| Adolygu | Aros | G | 10 | C | Ie | 05.10.22<br>27.10.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, |
| Adolygu | Aros | G | 17 | C | Na | 05.10.22<br>19.10.22<br>01.11.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, CAMHS, Addysg, Camddefnyddio Sylweddau |
| Newydd | Aros | G | 15 | C | Na | 06.12.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Barod |
| Newydd | Aros | G | 17 | C | Na | 06.12.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu | Ymadael | B | 14 | C | Ie | 24.10.22<br>15.11.22<br>21.11.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAFCASS, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd |
| Adolygu | Ymadael | B | 13 | C | Na | 04.10.22 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Tîm o Amgylch y Teulu, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |

## ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

Manylion Data Misol – Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | **295** |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE** **(Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **173 wedi'u hadolygu**<br>**114 wedi codi** |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **179 wedi'u trafod**<br>**173 wedi codi** |
| **Achosion aeth i MARAC** | **7** |
| **Canran yr achosion** | **38.64% wedi codi yn MRE**<br>**58.64% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol**<br>**2.37% wedi codi yn MARAC** |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | **Sir Gaerfyrddin – 121**<br>**Ceredigion – 38**<br>**Sir Benfro – 85**<br>**Powys – -51** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Sir Gaerfyrddin – 108**<br>**Ceredigion – 25**<br>**Sir Benfro – 125**<br>**Powys – 48 o blant** |

| | **Wedi codi yn MRE** | **Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 46 | 71 | 4 | | |
| Sir Benfro | 14 | 23 | 1 | | |
| Ceredigion | 35 | 48 | 2 | | |
| Powys | 19 | 31 | 0 | | |

Manylion Data Misol – Tachwedd

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | **317** |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE** **(Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **163 wedi'u hadolygu**<br>**108 wedi codi** |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **209 wedi'u trafod**<br>**198 wedi codi** |
| **Achosion aeth i MARAC** | **11** |
| **Canran yr achosion** | **34.06% wedi codi yn MRE**<br>**62.46% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol**<br>**3.47% wedi codi yn MARAC** |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | **Caerfyrddin – 134**<br>**Cered – 35**<br>**Penfro – 83**<br>**Powys – 65** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Caerfyrddin -147**<br>**Cered -28**<br>**Penfro – 83**<br>**Powys – 67** |

<table>
<tr><th></th><th>Wedi codi yn MRE</th><th>Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol</th><th>MARAC</th><th rowspan="5">Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC<br>(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)</th><th></th></tr>
<tr><td>Sir Gaerfyrddin</td><td>46</td><td>82</td><td>6</td><td></td></tr>
<tr><td>Sir Benfro</td><td>35</td><td>48</td><td>0</td><td></td></tr>
<tr><td>Ceredigion</td><td>8</td><td>26</td><td>1</td><td></td></tr>
<tr><td>Powys</td><td>18</td><td>43</td><td>4</td><td></td></tr>
</table>

Manylion Data Misol – RHAGFYR 2022

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | **260** |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **142 wedi'u trafod**<br>**100 wedi codi** |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **184 wedi'u trafod**<br>**167 wedi codi** |
| **Achosion aeth i MARAC** | **16** |
| **Canran yr achosion** | **38.46% wedi codi yn MRE**<br>**64.23% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol**<br>**6.15% wedi codi yn MARAC** |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | **Caerfyrddin – 93**<br>**Cered – 45**<br>**Penfro – 60**<br>**Powys – 65** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Caerfyrddin -115**<br>**Cered – 44**<br>**Penfro – 65**<br>**Powys – 43** |

| | **Wedi codi yn MRE** | **Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** (*10 munud yr achos ar gyfartaledd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 38 | 47 | 8 | | |
| Sir Benfro | 27 | 31 | 2 | | |
| Ceredigion | 12 | 31 | 2 | | |
| Powys | 23 | 37 | 5 | | |

# ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

## ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION

### HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a nodir isod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod Chwarter 3.  Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 219 mewnol<br>61 allanol |
| Lefel 2 | 43 mewnol<br>19 allanol |

### Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae 377 aelod o staff mewnol a 30 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod Chwarter 3.

### ADDYSG DDEWISOL GARTREF

| Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref | Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 229 | 262 | Wedi gwrthod – 27<br><br>Heb fynychu – 14<br><br>Plentyn wedi'i weld – 78<br><br>Plentyn heb ei weld – 7<br><br>Llythyr Gorchymyn Mynychu'r Ysgol wedi'i anfon at 1 |


Mae nifer yr ymweliadau a gynigiwyd yn uwch na nifer y plant addysg ddewisol gartref oherwydd y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael ar ddiwedd Mehefin 2022.


**PLANT SY'N DERBYN GOFAL**


| | |
|---|---|
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion | *Hydref: 46 (2 wedi symud y tu allan i'r sir yn ystod y mis)*<br>*Tachwedd: 49 (1 wedi dychwelyd i Geredigion)*<br>*Rhagfyr: 49* |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir | Hydref: 35 (2 wedi gadael yn ystod y mis o Geredigion)<br>Tachwedd: 35 (1 wedi dychwelyd i Geredigion yn ystod y mis)<br>Rhagfyr: 34 |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol eraill | Hydref: 26<br>Tachwedd: 26<br>Rhagfyr: 25 |

**CYSYLLTIADAU YSGOLION**


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion/sefydliadau addysg yn ystod cyfnod Chwarter 3.







Sylwer, roedd 22 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 3. Oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob ysgol ar un tabl.  Felly mae'r uchod dim ond yn nodi'r ysgolion oedd wedi cysylltu pedair gwaith neu ragor yn ystod y cyfnod.





Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. Yn yr adroddiad arbennig hwn, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon a godwyd er mwyn cymharu â Chwarter 1 y flwyddyn ddiwethaf.

| | |
|---|---|
| Llesiant | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, problemau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasau amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant |

Sylwer, cafodd cyfanswm o 59 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod cyfnod Chwarter 3 am gyfanswm o 173.5 o ddiwrnodau. (Mae'r ffigurau hyn yn llawer uwch na'r rhai a adroddwyd yn Chwarter 2 pan gafodd 39 o ddisgyblion eu gwahardd am gyfanswm o 82 o ddiwrnodau). Mae'r rhesymau a nodwyd ar gyfer y gwaharddiadau wedi'u nodi fel: ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn barhaus, bwlian, difrod,

cysylltiedig â sylweddau neu alcohol, ymosodiadau corfforol yn erbyn disgyblion ac oedolion, cam-drin hiliol, cam-drin geiriol, arall.

Yn ogystal â hyn, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 119 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac atal yn ystod y cyfnod hwn, heb gynnwys atgyfeiriadau gan y Tîm o Amgylch y Teulu.



## ADRAN 11: IECHYD

**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol**

**Chwarter 3 2022/23**


Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 2, 2022/23.

**Diogelu Oedolion**

Fel rhan o'r System Reoli Unwaith i Gymru, yn chwarter dau gwelwyd y gronfa ddata yn mynd yn fyw ar ffurf peilot, gyda'r holl Adroddiadau Diogelu Oedolion a godwyd yn erbyn Iechyd neu ei wasanaethau a gomisiynir yn cael eu lanlwytho, gan gynnwys uwchlwytho cofnodion o Chwarter 1 yn ôl-weithredol. Yn Chwarter 3 mae'r Tîm Diogelu Oedolion wedi gweithio gyda Thîm Datix y Bwrdd Iechyd i nodi a phennu mynediad i adroddiadau diogelu i'r gwasanaethau perthnasol, ac yna cyflwyno hyfforddiant i'r holl Arweinwyr Gwasanaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y gall uwch reolwyr o fewn yr holl wasanaethau sy'n delio â chleifion adolygu a chyfrannu at gofnodion perthnasol, gweld cydymffurfiaeth â'r broses ymholiadau 7 diwrnod, a thynnu data a themâu er mwyn llywio arferion yn y dyfodol lle bo'n briodol.

Mae swydd ychwanegol wedi cael ei chreu ar gyfer Ymarferydd Cymorth Diogelu Oedolion o fewn y tîm, a'r gobaith yw y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ar ddechrau Ebrill.

**<u>Chwarter 3 2022/23 Data Difrod Pwysau Osgoi Ysbyty Acíwt</u>**




Roedd cyfanswm o 50 o achosion o ddifrod pwysau y gellir eu hosgoi ar draws pob un o'r pedwar safle ysbyty acíwt yn Chwarter 3. O'r rhain, roedd 33 o'r achosion a adroddwyd yn achosion gradd 1 neu 2 (ni fyddai'r graddau hyn wedi cael eu hadrodd i'r tîm diogelu cyn cyflwyno Deddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)); cafodd 11 achos eu cofnodi fel anaf meinwe dwfn posibl amheus. Nid yw'n anghyffredin i ddifrod pwysau gael ei adrodd fel anaf meinwe dwfn amheus, ond o fewn ychydig ddiwrnodau daw'n amlwg ei fod yn radd 1 neu 2. Mae adrodd am achosion yn dal y difrod pwysau ar ei radd fwyaf arwyddocaol. Adroddwyd bod tri yn radd 3; cafodd un ei adrodd yn radd 4 ac roedd dau achos nad oedd modd eu graddio.

Mae'n werth nodi bod y nifer yn adlewyrchu pryd y cynhaliwyd y cyfarfodydd craffu yn hytrach na phryd y digwyddodd y difrod pwysau; yn yr adroddiad hwn digwyddodd 34 (68%) o achosion yn y chwarteri blaenorol. Weithiau mae angen gohirio achosion os oes angen rhagor o wybodaeth neu ymchwiliad pellach, ac mewn achosion eraill caiff achosion eu cario drosodd os caiff cyfarfodydd eu gohirio a'u haildrefnu


Ysbyty Glangwili – unwaith eto mae nifer uwch o achosion wedi'u trafod yn y cyfarfodydd craffu yn Ysbyty Glangwili o'i gymharu â safleoedd eraill, a chynnydd ers y chwarter diwethaf. Mae hyn i'w briodoli i gyfarfodydd ychwanegol a gynhaliwyd i ddal i fyny â'r adroddiadau DATIX a gyflwynwyd; mae 10 achos (31%) o achosion o Chwarter 1 2022/23 a Chwarter 4 y flwyddyn flaenorol. Pan archwiliwyd y data i weld pryd y digwyddodd y difrod pwysau mewn gwirionedd, roedd Chwarter 1 a Chwarter 2 yn gymaradwy (22 a 23 o achosion yn un).

Ysbyty Llwynhelyg – Gwyddus fod Ysbyty Llwynhelyg wedi cynnal llai o gyfarfodydd nag yn y chwarteri blaenorol a fyddai'n cyfrif am y gostyngiad cymharol yn nifer yr achosion.

Ysbyty'r Tywysog Philip – Mae cynnydd amlwg yn yr achosion ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip. Mar archwilio'r data ymhellach yn dangos bod y rhain mewn unedau asesu meddygol acíwt yn bennaf. Cafwyd adborth sy'n priodoli hyn i gynnydd parhaus o fewn yr adran, craffter manwl, a materion staffio gyda diffygion heb eu cynnwys a chyfran fawr o staff asiantaeth nad ydynt efallai'n gyfarwydd â phrosesau a dogfennaeth. Mae llyfryn i arwain staff asiantaeth ar ddogfennaeth yn cael ei lunio i'w gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli Nyrsys i'w gymeradwyo.

Rhoddir sicrwydd o ran yr achosion o ddifrod pwysau a adroddwyd sydd heb eu trafod eto yn y cyfarfodydd craffu a bydd camau gweithredu priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli difrod pwysau unigolion yn ddiogel adeg ei nodi.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**




Fel y dengys y data llinol isod, bu cynnydd sylweddol ers Rhagfyr 2019 ac mae hyn wedi cyflymu yn ystod y pandemig. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal yn sylweddol uwch nag yr oedd tua 5 i 6 mlynedd yn ôl.

Rydym wedi penodi Swydd Plant sy'n Derbyn Gofal parhaol 30 awr o'r swydd dros dro ar gyfer seibiant gyrfa. Mae hyn yn helpu i leddfu'r risg o gynnydd yn y llwyth gwaith o fewn y tîm.

Mae'r tîm wedi datblygu poster i'w ddefnyddio o fewn Cartrefi Preswyl Plant 'Mae'ch Iechyd Chi yn Bwysig' ac mae'r poster yn cynnwys codau QR sy'n cysylltu â phynciau hybu iechyd a gwybodaeth gefnogol.

- **Risgiau**
  Mae'r risg yn parhau i'r gwasanaeth oherwydd pwysau cost ar gyllideb gwasanaeth plant sy'n Derbyn Gofal i ateb ag anghenion plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a leolir o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Ar hyn o bryd o'r 30 sydd wedi'u lleoli dim ond un sy'n byw o fewn ôl troed Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn mynd i gostau oherwydd comisiynu asesiadau iechyd yn yr ardaloedd lle mae'r plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i leoli.

**Diogelu Plant**

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant / Cam-drin plant yn rhywiol**

Mae mwy o sesiynau hyfforddi Stop it Now wedi'u comisiynu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2023-24.

**Gweithgarwch Archwilio Diogelu Plant**

- Ailadrodd Archwiliad 'Heb Gael ei Hebrwng' (WNB) 2022

Ailadroddodd y tîm archwiliad o gydymffurfiaeth gyda phlant nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau a'u cyflwyno i'r Grwpiau Cyflenwi Gwasanaethau Diogelu. Er bod gweithdrefn yn ei lle mae'r archwiliad hwn wedi nodi nad yw'r term Heb Gael ei Hebrwng (WNB) yn cael ei ddefnyddio'n gyson o hyd fel y term ar gyfer plant nad ydynt yn mynychu apwyntiadau.

Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau offthalmoleg ac awdioleg a bydd yr archwiliad yn cael ei ailadrodd yn 2023-24.

- Cydymffurfio â'r Asesiad Risg ar gyfer cleifion o dan 18 oed a leolir mewn wardiau cleifion mewnol i oedolion

Cytunwyd ar broses asesu risg a'i rhoi ar waith ar draws Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn 2016. Yn anecdotaidd, roedd bylchau yn y sicrwydd bod asesiadau risg yn cael eu cynnal.

Pwrpas yr archwiliad yw asesu cydymffurfiad â'r asesiad risg ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed sy'n cael eu nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol i oedolion.

Casgliad yr archwiliad oedd nad oedd tystiolaeth dda o gydymffurfiaeth â'r broses asesu risg ac mae argymhellion wedi'u cytuno yn y Grŵp Cyflenwi Diogelu Gwasanaethau Acíwt i wella cydymffurfiaeth. Bydd y tîm diogelu corfforaethol yn ailadrodd ac yn rhoi Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar waith i gefnogi arferion, a bydd yn ailadrodd yr archwiliad ar ddechrau 2023-24.

**Diweddariad**

Mae'r swydd nyrs a enwir a swyddog arweiniol diogelu plant yn dal yn wag ac yn cael ei hysbysebu eto. Mae trefniadau dros dro yn eu lle. Rydym wedi penodi Ymarferydd Cymorth ar secondiad am 6 mis i reoli capasiti yn y cyfamser.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi comisiynu Cymorth i Fenywod Cymru i ddarparu hyfforddiant Grŵp 6 i'r arweinwyr strategol dros y 10 mis nesaf.

- Archwiliad o Effeithiolrwydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2

Nododd gwerthusiad diweddar gan GIG Cymru o'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu nad oedd proses gyson ar draws GIG Cymru i werthuso sut mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn gwella effeithiolrwydd ymatebion mewn lleoliadau iechyd ar gyfer y rhai sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ymhellach i hyn, cydnabu Adolygiad Dynladdiad Domestig diweddar yn cynnwys pobl sydd wedi derbyn gofal o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydnabod bod angen gwerthuso sut mae hyfforddiant yn galluogi ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cynhaliwyd archwiliad o'r rhai a fynychodd hyfforddiant Grŵp 2 i ddangos tystiolaeth o'r canlynol.

- Tystiolaeth o ddeall sut i gyfeirio at MARAC
- Cynnig atgyfeirio dioddefwyr i sefydliadau priodol eraill fel SARC, sefydliadau cam-drin domestig arbenigol y trydydd sector
- Ystyried materion diogelu ehangach sy'n cael sylw gan gynnwys diogelu plant ac 'oedolion sy'n wynebu risg'
- Gwrando ar gleientiaid a chynnig cymorth, gan annog y dioddefwr i fod yn rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Ystyried nodi risg a phwysigrwydd cynllunio diogelwch i gefnogi'r rhai y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio arnynt

Mae nifer yr ymatebion i'r arolwg yn cyfyngu ar ddod i gasgliadau am effeithiolrwydd yr hyfforddiant. Mae bwlch yn y sicrwydd y gofynnir i gleifion sy'n mynychu adrannau achosion brys ac unedau mân anafiadau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae datblygiad y rôl cam-drin domestig a thrais arfaethedig yn adran achosion brys Bronglais a phrosiect IRIS mewn gofal sylfaenol yn debygol o wella ymatebion i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhoi sicrwydd pellach o ymatebion effeithiol mewn lleoliadau iechyd.

**Dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig**

Ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cyfrannu at 5 Adolygiad Dynladdiad Domestig.
Mae'r camau gweithredu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes wedi'u cwblhau neu ar y gweill, ac mae'r rhain yn cynnwys;-

- Darparu sesiynau myfyriol a gynhelir gydag ymarferwyr sy'n ymwneud â gofalu am y rhai a nodwyd o fewn Adolygiadau Dynladdiad Domestig, gan archwilio chwilfrydedd proffesiynol.
- Gwella cysylltiadau â gofal sylfaenol, gan gynnwys cyflwyno o adolygiadau achos i feddygfeydd meddygon teulu ac ymarferwyr y tu allan i oriau, a hyrwyddo eu hymgysylltiad â darparwyr arbenigol trydydd sector.
- Hyrwyddo'r hyfforddiant thematig rhanbarthol ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig, a'r Llwybr Rhanbarthol i Gymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, gan gynnwys datblygu llwybrau i wella unrhyw feysydd lle mae cydymffurfiaeth yn wael.
- Gwreiddio dysgu Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghenion penodol profiadau pobl hŷn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Risgiau**

Mae gennym risg ar y gofrestr risg gwasanaeth ar gyfer ansicrwydd yr adnodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i reoli nifer yr achosion o ddigwyddiadau domestig a chyfarfodydd MARAC. Achosir hyn gan gynnydd mewn gweithgarwch o ganlyniad i'r pandemig a bylchau mewn capasiti cynaliadwy yn adnoddau'r ymarferydd diogelu corfforaethol a'r tîm gweinyddu diogelu i reoli hysbysiadau digwyddiadau domestig trwy'r system cyfiawnder troseddol a rhannu'r wybodaeth honno a thynnu sylw at systemau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn achosion risg uchel.

**Diweddariad**

Mae'r Swyddog Cymorth ar gyfer Cam-drin Domestig yn gadael ei swydd ar 17eg Mawrth oherwydd dyrchafiad. Rydym yn hysbysebu i lenwi'r swydd.

**Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi comisiynu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ymwelwyr iechyd ac mae tair sesiwn generig i'w cyflwyno gan Paula McCreary.

**System Reoli Unwaith Dros Gymru**

Mae'r tîm cenedlaethol yn dal i geisio datrys rhai materion sy'n cael effaith ar ddechrau'r gwaith o beilota ffurflen adrodd GIG Cymru. Rydym yn dal i aros am amserlen ar gyfer ateb. Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi arwain y gwaith o beilota'r swyddogaeth rheoli diogelu a fydd yn cael ei gyflwyno i Rwydwaith Diogelu GIG Cymru ym mis Mai 2023.

**Mandy Nichols-Davies**
**Pennaeth Diogelu**

## ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS):

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi/Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran gyda chymorth staff o'r uned iechyd meddwl.


Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Tystysgrif DBS fanylach ddilys
- Hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**





**Chwarter 3 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:**




**Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 3 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 13 wedi'u derbyn; 8 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 5 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Ym mis Hydref, derbyniwyd un person ifanc i'r gwely paediatrig ac yna ei drosglwyddo i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr, derbyniwyd dau berson ifanc dwywaith yn ystod yr un mis.

**Chwarter 3 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:**




**Statws Deddf Iechyd Meddwl**

Roedd lefel anarferol o uchel o weithgarwch Deddf Iechyd Meddwl yn y cyfnod hwn.

1 x A136 – Un person ifanc wedi'i gadw gan yr Heddlu a'i drosglwyddo i Hywel Dda yn amodol ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol.

**Canlyniadau Derbyn**

| | Wedi'i ryddhau gartref | Ei dderbyn i ward arall | Aros ar y ward |
|---|---|---|---|
| **Enfys** | 7 | 1 (trosglwyddwyd person ifanc o'r Enfys i Morlais) | 0 |
| **Morlais** | 4 | 1 (person ifanc wedi'i drosglwyddo i Dŷ Lidiard) | 0 |


**Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig, pan gaiff unrhyw berson ifanc ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a chynllun rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r Tîm Diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn achos o hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 3 2022/2023 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 3 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**





**Chwarter 3 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



**Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran**





**Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)**




**Cymhariaeth Derbyniadau Blynyddol yn ôl Ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 3 2022/2023 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2021/2022 a 2021/2020, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.




**Eiriolaeth**

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 o'r Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffai gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd cael mynediad i'r Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

# CEREDIGION


# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CWMPAS


## Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion

**Chwarter: 3**


**1/10/22 – 31/12/22**

**Chwarter 3 – Trosolwg**










| Labeli Rhes | Cyfrif Rhif Adnabod Asesiad |
|---|---|
| **2021-22 Ch3** | **149** |
| Hyd | 53 |
| Tach | 53 |
| Rhag | 43 |
| **2021-22 Ch4** | **164** |
| Ion | 55 |
| Chwef | 52 |
| Maw | 57 |
| **2022-23 Ch1** | **141** |
| Ebr | 36 |
| Mai | 58 |
| Meh | 47 |
| **2022-23 Ch2** | **130** |
| Gorff | 55 |
| Awst | 33 |
| Medi | 42 |
| **2022-23 Ch3** | **157** |
| Hyd | 53 |
| Tach | 67 |
| Rhag | 37 |
| **Cyfanswm** | **741** |



Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Ffynhonnell Adroddiadau
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Eiriolwr
Gwasanaeth ambiwlans
Rheoleiddiwr gofal
Ysbyty annibynnol
Awdurdod lleol
Bwrdd iechyd lleol
Arall
Heddlu
Prawf
Asiantaeth darparu
Perthynas/ffrind
Adrodd am eu hunain
Trydydd sector
2022-23 Ch3
2022-23 Ch2
2022-23 Ch1
2021-22 Ch4
2021-22 Ch3


| Cyfrif Rhif Adnabod Asesiad<br>Labeli Rhes | Labeli Colofn<br>2021-22 Ch3 | 2021-22 Ch4 | 2022-23 Ch1 | 2022-23 Ch2 | 2022-23 Ch3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiriolwr | 1 | 2 | | 3 | 2 | 8 |
| Gwasanaeth ambiwlans | 5 | 2 | 3 | 1 | 8 | 19 |
| Rheoleiddiwr gofal | | | | | 5 | 5 |
| Ysbyty annibynnol | 1 | | 1 | | | 2 |
| Awdurdod lleol | 19 | 21 | 25 | 15 | 23 | 103 |
| Bwrdd iechyd lleol | 22 | 21 | 16 | 15 | 20 | 94 |
| Arall | 23 | 18 | 16 | 20 | 11 | 88 |
| Heddlu | 26 | 36 | 29 | 23 | 40 | 154 |
| Prawf | | 2 | 2 | 4 | 1 | 9 |
| Asiantaeth darparu | 36 | 48 | 28 | 30 | 26 | 168 |
| Perthynas/ffrind | 5 | 8 | 12 | 13 | 14 | 52 |
| Adrodd am eu hunain | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 | 9 |
| Trydydd sector | 9 | 5 | 7 | 5 | 4 | 30 |
| **Cyfanswm** | **149** | **164** | **141** | **130** | **157** | **741** |



Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Hysbysiadau Trais Domestig
160
140
120
100
80
60
40
20
0
143
6
152
12
129
12
125
5
147
10
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Na
Ie



Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Corfforol
40
35
30
25
20
15
10
5
0
24
38
16
37
4
21
6
21
11
22
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Gwryw
Benyw


Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Rhywiol
20
15
10
5
0
3
9
2
10
4
5
3
11
5
18
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Gwryw
Benyw


Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Emosiynol/Seicolegol
60
50
40
30
20
10
0
18
33
27
43
23
44
18
49
17
47
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Gwryw
Benyw


Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Esgeulustod
40
35
30
25
20
15
10
5
0
28 28
20
34
25
35
13
28
22
29
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Gwryw
Benyw


Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Ariannol
25
20
15
10
5
0
13
10
17
11
19 19
11
21
20
22
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 2
Gwryw
Benyw


Nifer yr adroddiadau a aeth ymlaen i ymholiad
180
160
140
120
100
80
60
40
20
0
61
88
67
97
59
82
54
76
67
89
2021-2022 – Chwarter 3
2021-2022 – Chwarter 4
2022-2023 – Chwarter 1
2022-2023 – Chwarter 2
2022-2023 – Chwarter 3
Ie
Na

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 22 Mai 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron |
| **TEITL:** | Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae Adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

**<u>CYNLLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION</u>**

**Cefndir**

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi derbyn diweddariadau yn y gorffennol am y broses o ddatblygu'r Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yng Ngheredigion.

**Cymeradwyo**

Ar ôl i Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 6 Mawrth 2023, gwnaeth pob un o sefydliadau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y Cynllun Llesiant Lleol yng nghyfarfodydd eu byrddau yn unigol, gan wneud hynny rhwng 22 Mawrth a 20 Ebrill. Gallwn gadarnhau bod pob un o aelodau statudol unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 drwy eu trefniadau llywodraethu arferol.

Fel un o’r aelodau statudol, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cynllun yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 22 Mawrth 2023, y Cabinet ar 4 Ebrill 2023 a’r Cyngor llawn ar 20 Ebrill 2023.

Cyfarfu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 24 Ebrill 2023 i gadarnhau’r broses o gymeradwyo’r Cynllun Llesiant 2023-28 a bu i’r holl bartneriaid gytuno’n unfrydol. Cytunwyd y byddai’r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar 2 Mai, gan fodloni’r terfyn amser statudol fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir pob etholiad cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Mae copi o Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn ei ffurf derfynol i’w weld yn **Atodiad 1**.

**<u>COFNODION DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 24 EBRILL 2023</u>**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 i’r Pwyllgor a gallwch chi eu gweld yn **Atodiad 2**.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**<br>**Os naddo, nodwch pam** | Nid ydyw wedi'i gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn cynnig newid mewn Polisi na Gwasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br><br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br><br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLION:**

i. Nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.
ii. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**
Er mwyn i’r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Naomi McDonagh / Tim Bray |
| **Swydd:** | Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 22 Mai 2023 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

# CYNLLUN LLESIANT LLEOL
# CEREDIGION
## 2023-2028



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

# Cysylltwch â ni

**Post:**
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn:**
01545 570881

Mae **Fersiwn Testun Plaen** neu **Fersiwn Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

**Cymeradwywyd gan y BGC:**
24 Ebrill 2023
**Dyddiad Cyhoeddi:**
2 Mai 2023





# Cynnwys


Rhagair ........ 4

Cyflwyniad ........ 5

Cynllun ar Dudalen – Crynodeb o amcanion ac uchelgeisiau'r Cynllun Llesiant ........ 6

Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom: ........ 7

- Y saith nod Llesiant ........ 7
- Datblygu cynaliadwy ........ 8
- Y Pum Ffordd o Weithio ........ 8

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – cydweithio yng Ngheredigion ........ 9

Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill ........ 10

Sut rydym wedi datblygu'r cynllun ........ 11

Ein hamcanion llesiant ........ 12

Cyflawni a Monitro Cynnydd ........ 25

Cyfrannu at y saith Nod Llesiant ........ 26

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion. Dyma'r ail Gynllun Llesiant 5 mlynedd ac mae'n adeiladu ar gynllun 2018-2023, gan ystyried gofynion a disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru ac yn cynnig cyfle pwysig i wneud newid cadarnhaol, hirhoedlog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er budd llesiant Cymru.

Buom bob amser yn ffodus i gael trefniadau gweithio da rhwng partneriaid yng Ngheredigion, ac mae'r Ddeddf hon yn darparu'r uchelgais, y caniatâd, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Trwy'r asesiad o lesiant a chlywed gan ein cymunedau, gwerthfawrogwn yr amgylchedd rydym yn byw ynddo ond gwyddom ein bod yn wynebu heriau, nid yn unig oherwydd yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael, ond oherwydd bydd costau byw, amcanestyniadau poblogaeth a phrinder sgiliau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol. Hefyd disgwyliwn weld effeithiau cynyddol newid hinsawdd ar gymunedau.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth sydd wedi'u plethu trwy ein cymunedau ond mae angen mynd i'r afael â nhw mewn ffordd gydweithredol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gymunedau siapio eu dyfodol hirdymor ac rydym wedi ymrwymo i lunio a darparu gwasanaethau'n well gyda chymunedau er mwyn gwella llesiant yng Ngheredigion.

**Y Cynghorydd Bryan Davies**

**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion**

**"Gobeitho y bydd yr hyn y mae Cymru yn ei wneud heddiw, y bydd y byd yn ei wneud fory"**

Y Cenhedloedd Unedig



# Cyflwyniad

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion wedi ymrwymo i gydweithio i wella llesiant yng Ngheredigion nawr ac yn y dyfodol. Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn rhywbeth newydd ac mae gennym hanes hir o weithio fel hyn. Mae ein cynllun llesiant yn amlinellu'r pethau y bydd BGC Ceredigion yn cydweithio i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf; ein hamcanion a'n camau llesiant, yn ogystal â sut rydym am i Geredigion edrych ymhen 10 mlynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gael **yma**.

Mae'r Cynllun Llesiant hwn wedi'i lywio gan yr **Asesiad o Lesiant Leol** cynhwysfawr a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022. Edrychodd yr asesiad hwn ar yr asedau a'r heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu o ran eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac elfen bwysig ynddo oedd yr ymgysylltiad â chymunedau yng Ngheredigion. Edrychwyd ar gyfoeth o ddata.

Cafodd y cyfoeth hwn o ddata, gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth hirdymor, tueddiadau amgylcheddol ac economaidd ei goladu gan helpu i sefydlu'r Amcanion Llesiant arfaethedig y mae'r Cynllun Llesiant hwn yn seiliedig arnynt. Ymgysylltwyd â'n cymunedau, ein partneriaid, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill, i geisio barn ac awgrymiadau pellach ynghylch a oedd yr amcanion yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion llesiant y sir. Mae Bwrdd Gwasanaethau Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau a dwyn ynghyd raglenni gwaith heb ffiniau sefydliadol.

Ein cam nesaf fydd datblygu a gweithredu cynllun cyflawni gyda chamau gweithredu manwl i'w cwblhau; byddwn yn parhau i gynnwys ein cymunedau i lunio ein gwaith, cymhwyso egwyddorion adolygu parhaus a rhannu ein cynnydd wrth i ni fynd yn ein blaenau. Mae'r amcanion llesiant a'n huchelgeisiau i'w cyflawni wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf.

# CRYNODEB O AMCANION AC UCHELGEISIAU'R CYNLLUN HWN:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **TRAWSBYNCIOL** | **MYND I'R AFAEL Â CHALEDI A THLODI**<br>Cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion oherwydd gall y rhain gael effaith ar draws y pedwar piler llesiant – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol | | | |
| **Piler Llesiant** | **1. Llesiant Economaidd** | **2. Llesiant Cymdeithasol** | **3. Llesiant Amgylcheddol** | **4. Llesiant Diwylliannol** |
| **Amcanion** | **Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.** | **Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.** | **Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.** | **Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.** |
| **Uchelgeisiau** | Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol a bylchau sgiliau yn cael eu nodi ac yn cael sylw.<br><br>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC.<br><br>Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.<br><br>Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant. | Rhoi sylw i anghydraddoldebau daearyddol trwy waith seiliedig ar le sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned er mwyn sicrhau grymuso hirdymor.<br><br>Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion.<br><br>Presgripsiynu cymdeithasol, gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.<br><br>Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo potensial cysylltedd digidol. | Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau a sefydliadau'r BGC.<br><br>Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030<br><br>Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.<br><br>Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. | Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu dathlu.<br><br>Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol.<br><br>Ceredigion yn lle diogel gydag amgylchedd awyr agored hygyrch ac iach y mae pawb yn ei ddefnyddio a'i fwynhau. |

Tudalen 64

# Y Cynllun Llesiant a pham mae ei angen arnom

## Y saith nod llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i bob gwasanaeth cyhoeddus, e.e., cynghorau, iechyd, yr heddlu, yr amgylchedd, tân a sefydliadau trydydd sector i gydweithio i wella llesiant i bawb yng Nghymru a gweithio tuag at y saith nod llesiant;

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig gydweithio i wella llesiant Cymru. Mae'n gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru lle rydym ni i gyd am fyw, nawr ac yn y dyfodol.



## Datblygu cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant pobl heddiw heb wneud dim a allai wneud pethau'n waeth i genedlaethau o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion, a phobl hŷn yn y dyfodol, mewn geiriau eraill, ein holl deuluoedd, hen bobl a phobl ifanc, ein ffrindiau a'n cymdogion. Rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i ddatblygu ein cynllun.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn gweld y Cynllun Llesiant hwn fel cyfle pwysig i gryfhau'r gwaith a wneir gyda'n gilydd i wella llesiant ein cymunedau a'i gyfraniad at yr effaith genedlaethol a rhyngwladol ehangach.

## Y Pum Ffordd o Weithio

I'n helpu i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llesiant 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y "Pum Ffordd o Weithio". Mae'r ffyrdd hyn o weithio'n ein helpu i gydweithio'n well fel un gwasanaeth cyhoeddus, i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn fel sir, i leihau tlodi, gwella cydraddoldeb, creu economi carbon isel, neu gyfrannu at gymunedau hyfyw, diogel, wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.

### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd

### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill

### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu

### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant

### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

## Cydweithio yng Ngheredigion

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngheredigion wedi cytuno i ddod at ei gilydd i ddatblygu gwasanaeth cydweithredol sy'n rhoi cymunedau wrth ei wraidd. Maent wedi cytuno i symud y rhwystrau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a gweithio mewn ffordd ataliol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r cynllun hwn.

Ni all unrhyw un o'n pedwar amcan gael eu cyflawni'n effeithiol ar ei ben ei hun gan un sefydliad yn unig ac felly bydd gan holl bartneriaid y BGC a nodir isod rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun hwn.

## Aelod-Sefydliadau Statudol

- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Sefydliadau a wahoddwyd i gymryd rhan

- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Coleg Ceredigion
- Un Llais Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

## Strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith allweddol eraill:

Mae BGC Ceredigion yn cydnabod bod strategaethau, cynlluniau a rhaglenni gwaith corfforaethol eraill yn eu lle eisoes yn y sir a lle bo'n briodol gellir gwella effaith y rhain ymhellach trwy gydweithio. Mae enghreifftiau yn cynnwys; Datganiad Ardal Canolbarth Cymru CNC, Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, Model Cymdeithasol Llesiant, Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion, Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) ymhlith eraill.

Bydd y BGC yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried lle bo'n briodol ac yn cyfrannu at y gwaith a wneir, gan sicrhau bod cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud a bod cyflawni yn cael ei gryfhau.

## Adnoddau

Er nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol i gefnogi'r cynllun hwn a'r ffyrdd gwahanol o weithio, rydym yn cydnabod, trwy gydweithio a chynnwys cymunedau, y gallwn fod yn fwy effeithlon, darparu gwasanaethau â mwy o ffocws, rhannu ein hasedau, a chael llawer mwy o effaith.



# Sut rydym wedi datblygu'r Cynllun


Cyn i ni ddatblygu'r cynllun hwn, cynhaliwyd asesiad o lesiant. Pwrpas yr asesiad yw cael darlun cynhwysfawr o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, nawr ac i'r dyfodol. Fe'i defnyddiwyd fel sail tystiolaeth i osod yr amcanion yn y cynllun hwn a helpu i lywio'r hyn y bydd BGC Ceredigion yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i wella llesiant pobl a chymunedau yn y sir. Mae Ffigur 1.5 yn dangos cylch cynllunio'r BGC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Roedd ein hasesiad wedi dweud llawer wrthym am lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Ceredigion. Mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad, yn feintiol ac yn ansoddol, ac fe'u lluniwyd yn ystod camau dadansoddi data, ymgysylltu ac ysgrifennu'r asesiad.

Mae'r Asesiad wedi'i lywio gan ddata, ymchwil a chasglu tystiolaeth, o wrando ar bobl a rhanddeiliaid a thrwy ystyried tueddiadau'r dyfodol a'r pethau y gallwn eu rhagweld a allai ddigwydd yfory y mae angen i ni ddechrau cynllunio ar eu cyfer heddiw.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r Asesiad hwn i helpu i ddechrau gwaith manylach i ddarganfod beth sydd bwysicaf a beth y gellir ei wneud i wella lles pobl.

Cytunwyd ar yr amcanion canlynol, sy'n ffurfio sylfaen i Gynllun Lles Lleol 2023-2028.



# Ein Hamcanion Llesiant

**Llesiant Economaidd:**
Byddwn yn cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.

**Llesiant Cymdeithasol:**
Byddwn yn cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

**Llesiant Amgylcheddol:**
Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

**Llesiant Diwylliannol:**
Byddwn yn cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Yn ogystal â'r pedwar amcan hyn, teimlwyd bod angen ffocws penodol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi gan fod ganddo'r potensial i gysylltu â phob un o'r amcanion. Felly, mae hwn wedi cael ei adnabod fel thema drawsbynciol.**

Parhaodd sgyrsiau gyda'n cymunedau ac eraill, megis Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gasglu barn ar yr amcanion a'r hyn y dylai'r BGC ei wneud i'w cyflawni.

Archwiliwyd yr ymatebion hyn a'u mireinio ymhellach drwy weithdy o'r BGC, gyda chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Ystyriwyd hefyd Amcanion Llesiant unigol sefydliadau statudol y BGC ar draws y sir a'r blaenoriaethau rhanbarthol, gan arwain at y Cynllun Llesiant Drafft, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc, a ymgynghorwyd arnynt yn ystod mis Tachwedd, Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Gwahoddwyd adborth drwy arolygon papur ac ar-lein, yn ogystal â thrwy ymgysylltu â grwpiau penodol â diddordeb megis, LHDTQ+ (Pride y Gaeaf 2022), Mencap Ceredigion a fforymau megis y Fforwm Anabledd. Cynhaliwyd gweithdai penodol hefyd gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â'r Cyngor Ieuenctid er mwyn casglu eu barn. Roedd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, bwletinau staff a phosteri gyda chodau QR hefyd yn cael eu harddangos a chysylltwyd â chynghorau Tref a Chymuned yn uniongyrchol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i gyfrannu a derbyn adborth.

Mae BGC Ceredigion yn ddiolchgar i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru am ddarparu cyngor ar gynnwys y dogfennau ymgynghori a'r gwaith o gyflwyno'r gweithdai i bobl ifanc. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn yr Adroddiad Adborth Ymgynghori y Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 a rhoddwyd y sylw dyladwy i'r rhain yn y Cynllun Llesiant terfynol ar gyfer 2023-2028.

# Prosiect Dewi 2021-2026

Mae BGC Ceredigion yn ffodus o gael mewnbwn ac arbenigedd gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a dderbyniodd Arian Cymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi, arwain a chynghori ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogiad wrth baratoi ar gyfer Cynllun Llesiant 2023-2028 ac yn ystod ei gyflawni.

Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd wedi byw profiadau i ddatblygu atebion i heriau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau. Bydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y maes yn helpu i gyrraedd y nodau llesiant ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Cydnabyddir bod cyfranogi a chyd-gynhyrchu yn ffyrdd penodol o weithio ac mae gwreiddio'r ffyrdd hyn o weithio yn llwyddiannus yn gofyn am adnodd i staff ddatblygu'r sgiliau hyn. Bydd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynorthwyo ac yn llywio'r BGC ar wella cyd-gynhyrchu a chyfranogi trwy gydol cyfnod y Cynllun Lles a bydd yn weithredol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl amcanion isod.



# Amcan Trawsbynciol: Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi

## Pam mae hon yn thema drawsbynciol â blaenoriaeth:

Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld y cynnydd ail uchaf yn genedlaethol ers 2014/15. Yng Ngheredigion mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi[1].

-------------------------------------------------

**Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu ac mae'n parhau i fod yn her allweddol i aelwydydd, yn enwedig yng Ngogledd Aberystwyth, Aberteifi ac Aber-porth a De Aberystwyth[2].**

-------------------------------------------------

Mae tlodi incwm yn un o Dangosyddion Cenedlaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosydd yn mesur anghydraddoldeb incwm, dim safonau byw. Dydy Ceredigion ddim yn perfformio yn dda ar y mesur yma, mae bron traean yr aelwydydd yng Ngheredigion (10,250) yn byw mewn tlodi (ar lai na 60% o incwm cyfartalog y DU)[3] ac mae'r ffigur yn cynyddu. Rhwng 2018 a 2020 roedd y nifer o aelwydydd yn byw mewn tlodi wedi cynyddu gan 9% (neu 856 o aelwydydd).

**Roedd plant a phobl ifanc o ardaloedd o dlodi yn wynebu risg uwch o iechyd meddwl a llesiant gwael. Mae pandemig COVID-19 yn creu heriau newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ran adnabod plant sydd mewn 'perygl'. Ers y pandemig, mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd yn nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n ceisio cymorth gydag anawsterau emosiynol a meddyliol cymhleth[4].**

-------------------------------------------------

Amlygodd yr Arolwg Llesiant lefel y pryder ymhlith ymatebwyr yr arolwg ynghylch teuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd a fforddiadwyedd bwyd yn y dyfodol. Pan ofynnwyd – 'beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gyfrifoldeb byd-eang eich sir yn y dyfodol?', nodwyd tlodi bwyd fel y pryder pennaf, wrth i 61% o ymatebwyr ddewis yr ateb hwn[5].

-------------------------------------------------

**Mae tlodi yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf y Sir. Enillion ac incwm isel, gofal plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/tai fforddiadwy sy'n ysgogi tlodi yng Ngheredigion.**

Mae llawer o'r stoc tai yng Ngheredigion yn anaddas oherwydd bod yr adeiladau hyn mor hen, sy'n golygu ei bod yn anodd eu gwresogi a'u haddasu er mwyn gwella diogelwch a'u perfformiad wrth ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon, ac o ganlyniad, mae preswylwyr Ceredigion yn wynebu costau ynni uwch. Yn 2019, y gost ganolrifol flynyddol amcangyfrifedig am ynni yng Ngheredigion ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes oedd £651 ac roedd yn £1,158 ar gyfer cartrefi a oedd yn bodoli eisoes, ac mae'r ddau yma lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (£525 ar gyfer fflatiau a oedd yn bodoli eisoes a £907 ar gyfer tai a oedd yn bodoli eisoes)[6]. Mae'n debygol iawn y bydd y ffigurau hyn wedi codi o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol yn y DU. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar bobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn byw mewn sefyllfa o dlodi tanwydd, gan bod angen i'r gwres fod ar dymheredd uwch a bydd angen ei adael ymlaen am gyfnod hwy fel arfer. At hynny, lleolir cyfran uchel o aelwydydd Ceredigion oddi ar y prif rhwydwaith nwy, sy'n golygu bod preswylwyr yn ddibynnol ar danwydd drytach megis olew, trydan neu LPG a thariffau tanwydd deuol[7].

# Ein huchelgeisiau hir-dymor:

Nid yw caledi, tlodi ac anghydraddoldeb yn cael ei brofi bellach gan drigolion Ceredigion; gyda llai o effaith ar draws pob un o'r pedwar piler llesiant - llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth.

Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

[1]"Child poverty in your area 2014/15 – 2019/20". End Child Poverty Coalition. Online: http://www.endchildpoverty.org.uk/local-child-poverty-data-2014-15- 2019-20/. Adalwyd: 25.09.2021.
[2]CACI Paycheck Directory MSOA. 2020.
[3]CACI Paycheck directory (2020). 'No of HH below 60% GB median income.' [Mewnol].
[4]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[5]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[6]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020).'Energy Performance Certificate statistics for new and existing flats and houses'. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/datasets/energyperformancecertificatestatisticsfornewandexistingflatsandhouses (Accessed: 21.10.21).
[7]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).

# Amcan llesiant 1

## Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.

### Pam yr amcan hwn:

O'n hasesiad llesiant, rydym yn gwybod bod y rhagwelir y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng dros y 25 mlynedd nesaf, gan gynnwys parhad i'r tueddiadau sydd wedi gweld y boblogaeth oedran gweithio yn lleihau ac allfudiad pobl ifanc i ardaloedd arall yng Nghymru a'r DU. Ar yr un amser mae'r boblogaeth yn heneiddio. Bydd effeithiau'r newidiadau yma yn eang, bydd yn debygol o effeithio llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y sir. Er enghraifft, bydd yn effeithio ar allu'r gweithlu i fodloni gofynion sgiliau'r economi leol, ac wrth amddiffyn traddodiadau diwylliannol cryf y sir[8].

-------------------------------------------------

**Mae patrymau gweithio yn newid ac wedi dod i'r amlwg yn ystod COVID-19. Mae yna angen i weithio yn fwy hyblyg er mwyn cefnogi'r gweithlu presennol ac i annog eraill i mewn i'r gweithlu yn y dyfodol, megis oriau gweithio hyblyg, lleoliad gwaith a mwy o hyblygrwydd o gwmpas gofal plant. Rydym yn gwybod gwerth bod yn y gwaith a'r effaith ar lesiant, a gall y tueddiadau yma arwain at ffyrdd o greu cyfleoedd cyflogi ac i lenwi bylchau sgiliau sydd wedi adnabod yn yr economi lleol.**

Rydym yn ddibynnol ar gysylltedd digidol, ac mae hyn yn cynyddu yn enwedig yn dilyn pandemig COVID-19, mae'r tueddiadau yma yn debygol o barhau. Mae'r Asesiad yn arddangos pwysigrwydd band-llydan cyflym a dibynadwy a gwasanaethau ffonau symudol i fusnesau, cymunedau ac unigolion. Bydd gwella cysylltedd digidol yng Ngheredigion yn hanfodol i ddarparu'r seilwaith sydd yn angenrheidiol i'r dyfodol.

-------------------------------------------------

**Mae straen ac anawsterau ariannol sy'n deillio o'r pandemig, ynghyd â chostau byw cynyddol ac amgylcheddau gwaith gwael, i gyd yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn lefelau afiechyd cronig a chyfraddau marwolaethau ar draws Cymru. Addasodd llawer o gyflogwyr yn gyflym i ddiogelu iechyd eu gweithlu yn ystod y pandemig. Wrth i ni geisio llunio dyfodol gwell i Gymru, mae'n ddyletswydd arnom i wella cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch. Ar lefelau lleol a rhanbarthol, rhaid i ni weithredu gyda ffocws a dwysedd i wneud mynediad at waith o ansawdd da yn decach, defnyddio arian cyhoeddus i wella amodau gwaith a llunio partneriaeth â busnesau i hyrwyddo a gweithredu gwaith teg. (Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022).**

## Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Mae gweithlu lleol ar gael sy'n diwallu anghenion y sector cyhoeddus ac anghenion y sector preifat.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i gyflawni amcanion y BGC.
- Ystyried ffyrdd arloesol o wneud cadwyni cyflenwi yn fwy effeithlon gan gefnogi'r economi leol yr un pryd.
- Sefydliadau'r BGC yn ysgogi cyfranogiad mwy cynhwysol mewn gwaith teg, cynaliadwy fel rhan o'r ymdrechion i ddatblygu economi llesiant a sicrhau arferion gorau yn yr economi sylfaenol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

**1.1** Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd.

**1.2** Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

**1.3** Bydd grŵp partneriaeth yn cael ei sefydlu i gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd hyn yn sicrhau trosolwg traws-sefydliadol a dull gweithredu ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso alinio ffrydiau ariannu lle bo'n briodol a sicrhau bod yr Amcanion Llesiant yn cael eu hystyried a bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu.

**1.4** Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud defnydd y mwyaf o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith.

**1.5** Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.

**1.6** Bydd y BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau er mwyn ddatblygu dull mwy cynhwysol o fesur llwyddiant economaidd.

[8] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).

# Amcan llesiant 2

## Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

### Pam yr amcan hwn:

Mae Pandemig COVID-19 wedi creu anghydraddoldebau newydd ac wedi gwaethygu'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae Adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol[9] yn dangos mai'r rhai sy'n byw mewn iechyd gwael, tlodi neu mewn cymunedau ymylol sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig. Yn ogystal, COVID-19 wedi tynnu sylw at y bwlch enfawr yn y dystiolaeth wrth gasglu data ar nodweddion gwarchodedig.

-------------------------------------------------

**Mae ein hiechyd wedi'i gysylltu'n agos ag agweddau cymdeithasol ac economaidd ar ein bywydau: o ble rydym yn cael ein geni, ble rydym yn byw ac yn gweithio, i'n cyfleoedd addysgol, ein hincwm, a'n dylanwad. Mae'r ffactorau cymdeithasol hyn yn arwain at anghydraddoldebau iechyd a llesiant ar draws pobl a chymunedau gwahanol, o ran mynediad at ofal iechyd, ac o ran y cyfleoedd sydd gennym i fyw bywydau iach. Wrth gwrs, nid dyma'r unig ffactorau a gall presgripsiynu cymdeithasol gynnig manteisio cadarnhaol a helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ymwneud â llesiant cyfannol a rhoi'r cyfrifoldeb am reoli iechyd gyda'r unigolyn, ac mae'n gyfrwng i rymuso a galluogi.**

Mae tystiolaeth gyson bod ymgysylltu â byd natur yn fuddiol o ran gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol ac mae presgripsiynu cymdeithasol hefyd yn cynnwys cael mynediad at gymorth ar faterion megis dyled a thai yn ogystal â gweithgareddau megis celf a grwpiau cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cael mynediad rhwydd at gymorth a threulio hyd yn oed ychydig o amser yn yr awyr agored fod yn fuddiol, gan arwain ymchwilwyr i alw ar bawb i gael 'dos o natur' bob dydd. Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod yr enillion cymdeithasol ar fuddsoddi mewn gwirfoddoli gwyrdd yn rhagorol.

-------------------------------------------------

**Bu diddordeb yn ddiweddar ym maes iechyd y cyhoedd mewn effeithiau cadarnhaol bod yn agos i'r arfordir ar iechyd a llesiant. Gyda phrofiad sylweddol o bresgripsiynu cymdeithasol 'gwyrdd' lle mae pobl â phroblemau iechyd meddwl megis iselder, gorbryder a phroblemau gyda defnyddio sylweddau yn cael eu cyfeirio at weithgareddau seiliedig ar natur. Fel sir arfordirol cydnabyddir potensial presgripsiynu cymdeithasol 'glas', megis therapi syrffio i hybu cysylltiad cymdeithasol, iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.**

## Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Rhoi sylw i anghydraddoldebau daearyddol trwy waith seiliedig ar le sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned er mwyn sicrhau grymuso hirdymor.
- Gwella mynediad anghyfartal at fwyd iach a gweithio i wella cynaliadwyedd y system fwyd yng Ngheredigion.
- Presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd a glas, a ddarperir gan wasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda, yw'r dull atgyfeirio arferol a derbyniol ar gyfer gwella iechyd.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo potensial cysylltedd digidol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

**2.1** Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. Bydd hyn yn cynnwys:

**2.1.1** Cynnal astudiaeth waelodlin gychwynnol gyda ffocws ar fynd i'r afael â chaledi. Parhau i ganolbwyntio ar ddangosyddion caledi allweddol – amddifadedd, credyd cynhwysol, incwm aelwydydd, tlodi plant, cyflogaeth a swyddi, banciau bwyd, tai, diogelwch cymunedol, gwres/tanwydd.

**2.1.2** Defnyddio dull ar gyfer Datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar Asedau i helpu i gysylltu pobl, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, plant a phobl ifanc, er mwyn helpu i greu mwy o berthnasoedd yn seiliedig ar breswylydd i breswylydd, gan adeiladu ar gyd-ddibyniaeth a dibyniaeth ar ei gilydd. Mae cysylltu pobl â'u diddordebau cyffredin a'u galluogi i gyfnewid sgiliau ac adnoddau yn helpu cymunedau i nodi a gweithredu ar y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

**2.1.3** Mapio asedau ac adnoddau ar draws y gymuned gyfan a nodi bylchau posibl ar gyfer gweithredu ataliol, yn ogystal â chyfleoedd cyfredol a chyfleoedd posib ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, gwyrdd a glas; integreiddio gwaith y rhagnodwyr cymdeithasol a chysylltwyr cymunedol ymhellach.

**2.1.4** Bydd dysgu o'r dull hwn yn galluogi i ddulliau tebyg gael eu defnyddio mewn meysydd eraill ac yn cyfrannu at well cyfranogiad gyda chymunedau.

**2.2** Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno.

**2.3** Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol.

**2.4** Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a chysylltiadau.

**2.5** Defnyddio dull partneriaethol o gynyddu'r nifer o'r genhedlaeth bresennol a chenhedlaeth y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws y sir, gyda chysylltiadau priodol wedi'u gwneud i gael mynediad i fannau gwyrdd.

**2.6** Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Lles.

[9] D MacBride-Stewart, S. and Dr Parken, A. (2021). Inequalities in a Future Wales: Areas for action in work, climate and demographic change – Full Report. [Online]. Available at: Future Trends and Inequalities in Wales (futuregenerations.wales) (Accessed: 07.02.2021).

# Amcan llesiant 3

## Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

### Pam yr amcan hwn:

O'n hasesiad llesiant, rydym yn gwybod mae Newid Hinsawdd yn parhau i fod yn un o heriau allweddol i ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Asesiad yn dangos y gwerth mae pobl leol yn gosod ar ei amgylchedd lleol ac ar y rôl allweddol mae'n chwarae ar ei lesiant, ond mae angen cymryd camau nawr i ddiogelu'r amgylchedd ac i liniaru'r effeithiau ar yr amgylchedd ac ar y fioamrywiaeth o'n cwmpas.

- Bydd datgarboneiddio yn heriol ac mae angen ystyried yn ofalus sut i'w weithredu.
- Mae plant yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'r amgylchedd naturiol ac yn ymwybodol iawn o'r angen i'w warchod[10].
- Mae ymwybyddiaeth a phryderon pobl ifanc am warchod yr amgylchedd yn parhau i dyfu[11].
- Roedd pobl ifanc yn poeni mwyaf am dipio anghyfreithlon a cholled ardaloedd gwyrdd[12].

## Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio o fewn cymunedau a sefydliadau'r BGC.
- Cyrraedd statws Sero Net erbyn 2030.
- Uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.
- Paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

## What we will do:

**3.1** Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.

**3.2** Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd trwy gefnogi mesurau atal llygredd, gan sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ag Amcan 2 o ran gweithio gyda chymunedau a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol (cam 2.3).

**3.3** Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion.

**3.4** Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur.

**3.5** Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd gan sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud â cham 1.1, o ran cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

**3.6** Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy.

**3.7** Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da a phriodol i bawb, gydag systemau ynni effeithlon.

[10]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[11] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[12] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).

# Amcan llesiant 4

## Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

### Pam yr amcan hwn:

Gwyddom fod cysylltiad cryf efo iaith a diwylliant yng Ngheredigion a bydd darparu cyfleoedd i bobl i ddysgu a gwella ei sgiliau iaith Cymraeg yn hanfodol er mwyn cadw'r iaith yn fyw i genedlaethau'r dyfodol. Dynododd yr Arolwg Lles bod siarad Cymraeg yn hynod o bwysig er mwyn cynnig ymdeimlad o gynhwysiant a hunaniaeth, sy'n gallu cael canlyniadau lles cadarnhaol[13]. Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg ac mewn byd sy'n globaleiddio, gall hunaniaeth arbennig, megis bod yn Gymro neu'n Gymraes, fod yn brofiad cyffrous a chyfoethog. Mae ymchwil yn dangos y gall datblygu'r Gymraeg yn ystod blynyddoedd cynnar annog ymdeimlad o berthyn, a chynnig llwybr at gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol newydd megis llenyddiaeth, cerddoriaeth, ffilm a theatr yn nes ymlaen mewn bywyd. Hefyd, mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn pasio'r iaith ymlaen i'r genhedlaeth nesaf a bod plant yn cael cyfleoedd i gymdeithasu yn yr iaith yn eu hardaloedd lleol yn hanfodol i oroesiad y Gymraeg.

**Mae ymgysylltiad cymdeithasol yn sbardun allweddol canlyniadau lles. Ar lefel gymdeithasol, mae pobl a chymunedau cydnerth ac sydd â chysylltiadau da yn hapusach ac yn iachach, ac yn gallu siapio eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol yn well[14]. Mae sicrhau cymunedau â chysylltiadau da yn dod yn bwysicach, ac yn 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gyntaf; 'Cysylltu Cymunedau', er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd ac ynysu cymdeithasol a meithrin cysylltiad cymdeithasol cryfach. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion, oherwydd y gallai rhwystrau strwythurol gyfyngu ar ymgysylltiad, a allai arwain at unigrwydd ac ynysu cymdeithasol tybiedig.**

---

Er gwaetha'r ffigurau troseddu isel yng Ngheredigion, mae teimlo'n ddiogel yn hanfodol o hyd i lesiant, ac mae'n nodwedd amlwg yn y arolwg llesiant a'r digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid. Ond ar draws yr holl ymatebion, teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain oedd yr thema unigol bwysicaf, a nodwyd gan 61% o'r ymatebwyr[15]. Er bod y canfyddiad o droseddu yn tueddu i fod yn uwch na realiti troseddu, nid yw'n hollol glir pam y daeth yr ymdeimlad ehangach o deimlo'n ddiogel i'r amlwg mor aml yn ystod yr ymgynghoriad.

## Ein huchelgeisiau hir-dymor:

- Ceredigion yn fan lle mae amrywiaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg yn cael eu dathlu.
- Y gymuned yn cael ei chynnwys er mwyn i bobl deimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn wybodus er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol lleol.
- Ceredigion yn lle diogel gydag amgylchedd awyr agored hygyrch ac iach y mae pawb yn ei ddefnyddio a'i fwynhau.

Tudalen 80

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:

**4.1** Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol. Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2.

**4.2** Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau'r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn.

**4.3** Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion.

**4.4** Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny.

**4.5** Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion.

**4.6** Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.

[13]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[14]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).
[15]Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2022). 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022'. [Ar-lein]. Ar gael ar: Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 (Cyrchwyd: 10.10.22).



# Cyflawni a Monitro Cynnydd

## Trefniadau Llywodraethu a Chyflawni'r Cynllun

Strwythur gweithredol y Grwpiau Prosiect: Bydd pob Grŵp Prosiect yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd o blith un o bartneriaid y BGC. Gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar agenda strategol, bydd aelodaeth y grwpiau yn cynnwys y cynrychiolwyr ar draws y sefydliadau sydd ag iddynt y statws priodol ond bydd yn hyblyg o ran medru cynnwys y swyddogion a'r staff cywir ynghyd ag eraill (y cyhoedd a grwpiau buddiannau arbennig) er mwyn cydgynhyrchu gwasanaethau a'u darparu mewn modd effeithiol. Bydd y BGC a'r Grwpiau Prosiect yn cael eu cefnogi gan Bartneriaeth Tlodi.

Mae'r Grwpiau Prosiect yn dod yn uniongyrchol o dan drefniadau llywodraethu'r BGC, a fydd yn caniatáu i'r fforymau fabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg gan roi'r gallu iddynt adrodd ynghylch eithriadau ac uchafbwyntiau i'r BGC. Mi fydd pob Grŵp Prosiect yn datblygu cynllun cyflawni a chynllunio prosiect a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC. Bydd y cynllun cyflawni yn rhoi eglurder ar y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r Camau Gweithredu yn y Cynllun hwn ac yn nodi'r partneriaid a'r rhanddeiliaid fydd yn gyfrifol am eu cyflwyno.

## Monitro ein perfformiad

Bydd y BGC yn monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn, a byddwn yn datblygu offeryn adrodd yn seiliedig ar egwyddorion rheoli prosiect. Byddwn yn cynllunio dangosyddion sy'n addas ar gyfer y Cynllun ac sy'n berthnasol ar gyfer ein hardal leol.

## Craffu

Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC Ceredigion trwy adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerir gan y Bwrdd, a thrwy adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd.

## Adroddiad Blynyddol

Fel rhan o'n trefniadau monitro, byddwn yn paratoi Adroddiad Blynyddol a fydd yn nodi manylion y camau a gymerwyd gan y BGC er mwyn sicrhau bod pob un o'r Amcanion Llesiant yn cael eu cyflawni.

# Sut mae'r rhain yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant



## Cymru lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd bydeang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.1 | Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd. |
| 1.2 | Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol. |

| | |
|---|---|
| 1.3 | Bydd grŵp partneriaeth yn cael ei sefydlu i gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd hyn yn sicrhau trosolwg traws-sefydliadol a dull gweithredu ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso alinio ffrydiau ariannu lle bo'n briodol a sicrhau bod yr Amcanion Llesiant yn cael eu hystyried a bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu. |
| 1.4 | Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud defnydd y mwyaf o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith. |
| 1.5 | Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb. |
| 1.6 | Bydd y BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau er mwyn ddatblygu dull mwy cynhwysol o fesur llwyddiant economaidd. |
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le.  Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |
| 2.4 | Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a chysylltiadau. |
| 3.1 | Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio i gefnogi gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. |
| 3.3 | Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion. |
| 3.5 | Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd gan sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud â cham 1.1, o ran cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n addas ar gyfer y dyfodol. |
| 3.6 | Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |

# Cymru gydnerth

**Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.1 | Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd. |
| 1.2 | Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol. |
| 1.6 | Bydd y BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r fframwaith economaidd rhanbarthol ar draws ystod o feysydd megis ynni, yr economi a sgiliau er mwyn ddatblygu dull mwy cynhwysol o fesur llwyddiant economaidd. |

| | |
|---|---|
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |
| 2.4 | Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a chysylltiadau. |
| 2.6 | Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Lles. |
| 3.1 | Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 |
| 3.2 | Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd trwy gefnogi mesurau atal llygredd, gan sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ag Amcan 2 o ran gweithio gyda chymunedau a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol (cam 2.3). |
| 3.3 | Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion. |
| 3.4 | Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 3.5 | Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd gan sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud â cham 1.1, o ran cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n addas ar gyfer y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| 3.6 | Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |
| 3.7 | Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da a phriodol i bawb, gydag systemau ynni effeithlon. |
| 4.1 | Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol. Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2. |
| 4.2 | Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau'r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn. |
| 4.3 | Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion. |
| 4.4 | Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny. |
| 4.6 | Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol. |

# Cymru sy'n fwy cyfartal

**Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.1 | Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd. |
| 1.5 | Bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb. |
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |

| | |
|---|---|
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |
| 2.5 | Defnyddio dull partneriaethol o gynyddu'r nifer o'r genhedlaeth bresennol a chenhedlaeth y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws y sir, gyda chysylltiadau priodol wedi'u gwneud i gael mynediad i fannau gwyrdd. |
| 2.6 | Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Lles. |
| 3.2 | Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd trwy gefnogi mesurau atal llygredd, gan sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ag Amcan 2 o ran gweithio gyda chymunedau a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol (cam 2.3). |
| 3.4 | Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 3.6 | Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |
| 3.7 | Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da a phriodol i bawb, gydag systemau ynni effeithlon. |
| 4.1 | Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol.  Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2. |

| | |
|---|---|
| 4.2 | Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau'r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn. |
| 4.3 | Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion. |
| 4.4 | Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny. |
| 4.5 | Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion. |
| 4.6 | Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol. |

# Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.2 | Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol. |
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| 2.5 | Defnyddio dull partneriaethol o gynyddu’r nifer o’r genhedlaeth bresennol a chenhedlaeth y dyfodol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws y sir, gyda chysylltiadau priodol wedi'u gwneud i gael mynediad i fannau gwyrdd. |
| 2.6 | Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Lles. |
| 3.2 | Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd trwy gefnogi mesurau atal llygredd, gan sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ag Amcan 2 o ran gweithio gyda chymunedau a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol (cam 2.3). |
| 3.3 | Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion. |
| 3.4 | Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 3.6 | Mae sefydliadau’r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |
| 3.7 | Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da a phriodol i bawb, gydag systemau ynni effeithlon. |
| 4.1 | Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol. Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau’n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2. |
| 4.2 | Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau’r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn. |
| 4.3 | Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion. |
| 4.4 | Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny. |

# Cymru o gymunedau cydlynus

**Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.2 | Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo dull gweithredu ar draws ein sefydliadau, gan gryfhau rhaglenni prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn helpu i gysylltu ag eraill yn ogystal â chyfrannu at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol. |
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le.  Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| 2.4 | Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a chysylltiadau. |
| 2.6 | Bydd Cyrff Cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Lles. |
| 3.4 | Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 3.6 | Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |
| 4.1 | Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol. Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2. |
| 4.2 | Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau'r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn. |
| 4.3 | Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion. |
| 4.4 | Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny. |
| 4.5 | Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion. |
| 4.6 | Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol. |

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 2.1 | Byddwn yn defnyddio dull partneriaethol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chaledi gan ddefnyddio'r ymyriadau sy'n seiliedig ar le. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar le yn galluogi mwy i waith wedi'i dargedu a'i ganolbwyntio, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a nodi'r hyn sydd ei angen. Mae cymhwyso ffocws ar y cyd ar gymuned benodol, yn sicrhau amodau i bobl ffynnu a thros amser, leihau'r galw am wasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n wreiddiol ar Aberteifi, tref sydd wedi cael ei tharo'n arbennig o wael gan bandemig y coronafeirws ac mae cryn dystiolaeth i ddangos ei bod yn ardal sydd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd. |
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| 4.1 | Bydd y BGC yn cefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Ceredigion a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir. Bydd yn strategaeth gymunedol i ddefnyddio ein diwylliant a'n hanes i wneud i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned, wedi buddsoddi ynddi ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thrwy gael balchder yn y gorffennol gall helpu i siapio'r dyfodol. Oherwydd y cysylltiadau posibl gyda llesiant Cymdeithasol, bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda gweithio ar sail lleoedd o dan amcan 2. |
| 4.2 | Gweithredu Strategaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir, gan adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Bydd holl bartneriaid y BGC yn ystyried beth fydd eu camau nesaf y tu hwnt i weithredu gofynion statudol Mesur y Gymraeg, i annog y defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle a chryfhau'r ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn. |
| 4.3 | Caiff Asesiad Strategol o Droseddau ac Anhrefn Ceredigion ei gynnal i lywio blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a helpu i ddeall ofn troseddu yng Ngheredigion. |
| 4.4 | Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn Cymunedol gyda sefydliadau partner i nodi dangosyddion cynnar o densiynau sy'n datblygu o fewn cymunedau a gweithredu ffrydiau gwaith ymyrraeth gynnar ac atal yn yr ardaloedd hynny. |
| 4.5 | Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion. |
| 4.6 | Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol. |

# A globally Responsible Wales

**A nation which, when doing anything to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales, takes account of whether doing such a thing may make a positive contribution to global well-being**

| | |
|---|---|
| 0.1 | Bydd y BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio at y pileri llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| 0.2 | Bydd yr is-grŵp tlodi yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion. Y grŵp hwn fydd y llygaid a'r clustiau, gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. Bydd buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth. |
| 0.3 | Bydd yr Is-grŵp tlodi sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner yn craffu ar waith y BGC i wella'r gwaith a wneir i frwydro yn erbyn tlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan. |
| 1.1 | Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan gynnwys partïon sydd â diddordeb mewn cynnal archwiliadau yn y gweithlu a nodi bylchau sgiliau i helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol; cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector gyhoeddus a'r sector preifat ac anghenion lleol, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys uwchsgilio ac ail-hyfforddi ar gyfer economi werdd. |
| 1.4 | Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud defnydd y mwyaf o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith. |
| 2.2 | Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno. |
| 2.3 | Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd sy'n gweithio mewn ffordd i bontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith wirioneddol gymunedol i wella mannau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| 3.1 | Cyflawni gweithgarwch datgarboneiddio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. |
| 3.2 | Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr a'r amgylchedd trwy gefnogi mesurau atal llygredd, gan sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ag Amcan 2 o ran gweithio gyda chymunedau a chefnogi cymunedau sydd am reoli a gwella eu hamgylchedd lleol (cam 2.3). |
| 3.3 | Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion. |
| 3.4 | Cynnal Asesiad Risg a Chyfleoedd Newid Hinsawdd a helpu i ddatblygu cymunedau ymaddasol a chydnerth mewn ymateb i newid hinsawdd, gan annog arloesi a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur. |
| 3.5 | Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd gan sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud â cham 1.1, o ran cynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i gwrdd â chyfleoedd gyrfa yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n addas ar gyfer y dyfodol. |
| 3.6 | Mae sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i Siarter Teithio Iach sy'n hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn, gan gydnabod y cyfraniad cadarnhaol sydd gan hyn ar wella cysylltiadau cymdeithasol, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy. |
| 3.7 | Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da a phriodol i bawb, gydag systemau ynni effeithlon. |
| 4.5 | Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i gefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion. |
| 4.6 | Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol. |

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

# CYNLLUN LLESIANT LLEOL
# CEREDIGION
## 2023-2028





Cydnabyddiaethau:
Cafodd logos y Saith Nod Llesiant a Phum Dull o Weithio eu lawrlwytho o wefan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - **www.futuregenerations.wales/cy**
Cafodd delweddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu lawrlwytho o Becyn Adnoddau Gweledol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - **www.llyw.cymru**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 34**
**24 Ebrill 2023, 13:30**
**Cyfarfod Rhithiol ar Zoom**

**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cadeirydd y Bwrdd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Is-gadeirydd y Bwrdd, CAVO |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dr. Phil Kloer (PK) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Gavin Bown (GB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel Jarvis (RJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwilym D. Jones (GJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Megan Harris (MH) | Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rhodri Llwyd Morgan (RhLlM) | Prifysgol Aberystwyth |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Jan Batty (JB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Peter Skitt (PS) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Claire Bryant (CB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bailie Olivia-Jones (BOJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Keith Evans (KE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carys Huntly (CH) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux (MV) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Naomi McDonagh (NMc) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Thomas (AT)<br>Teleri Elias (TE)<br>Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Sir Ceredigion | |
| **34.1** | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau** | |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Steve Moore | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Judith Hardisty | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Yr Uwcharolygydd Ross Evans | Heddlu Dyfed Powys |

| | |
|---|---|
| **34.2** | **Cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 06.03.2023** |

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06.03.2023 yn gywir.

Diolchodd y Cadeirydd i NMc am ei holl waith caled a'i chyfraniadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

| | |
|---|---|
| **34.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** |

**Canlyniadau Cyfrifiad 2021:**
*Byddai Rob Starr yn cyflwyno data'r Cyfrifiad yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill.*
Cadarnhaodd NMc fod CT yn bresennol yn y cyfarfod hwn i gyflwyno data'r Cyfrifiad ar ran Rob Starr.

**Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Ddatgarboneiddio:**
*Byddai RJ yn gwneud ymholiadau i weld a oedd adroddiad gwaelodlin Risgiau yn sgil yr Hinsawdd, Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i'w rannu ag Is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*
Cadarnhaodd RJ nad oedd adroddiad gwaelodlin Risgiau yn sgil yr Hinsawdd, Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gwblhau eto. Y bwriad oedd cwblhau'r adroddiad yn 2023 a'i ddosbarthu cyn gynted ag y byddai'n barod.

**Is-grŵp Tlodi**
*Byddai'r partneriaid yn ystyried staff yn eu sefydliadau a allai ychwanegu gwerth at waith yr is-grŵp a byddent yn rhannu'r manylion cyswllt gyda CM.*
Pwysleisiodd NMc y gallai pob un o'r sefydliadau a oedd yn bartneriaid gysylltu â CM pe byddai ganddynt aelodau addas i ymuno â'r Is-grŵp Tlodi.

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**
*Byddai KB yn rhannu sleidiau'r cyflwyniad PwerBwynt â'r Tîm Partneriaethau fel y gellid eu dosbarthu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*
Cadarnhaodd NMc fod hyn wedi digwydd.

**Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch lleoliad ysbyty newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio**
*Byddai ER yn rhannu sleidiau'r cyflwyniad PwerBwynt gyda'r Tîm Partneriaethau fel y gellid eu dosbarthu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*
Cadarnhaodd NMc fod hyn wedi digwydd.

**Recriwtio aelod o staff i reoli system Gorwel:**
Cadarnhaodd NMc fod y disgrifiad swydd ar gyfer y swydd hon wedi'i lunio a nododd y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n fuan.

| 34.4 | **Cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28** |
|---|---|

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 wedi bod gerbron y Cabinet a'r Cyngor a'i fod wedi'i gymeradwyo ganddynt. Cadarnhaodd NMc fod y cynllun hefyd wedi'i gymeradwyo gan bob un o aelodau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod y blaenadroddiad statudol wedi'i ddosbarthu. Diolchodd NMc i bawb a fu'n rhan o'r broses gan ddiolch yn arbennig i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am ei gefnogaeth wrth baratoi'r ddogfen derfynol. Cynigiodd NMc y dylai Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion gael ei gyhoeddi ar 2.5.2023.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y gellid cyhoeddi fersiwn derfynol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar 2.5.2023.**

| 34.5 | **Trefniadau Llywodraethu a Chyflawni** |
|---|---|

Cadarnhaodd NMc y byddai fersiwn ddrafft y fframwaith Llywodraethu a Chyflawni yn cael ei dosbarthu'n fuan. Cyflwynodd NMc y ddogfen ar y sgrîn gan y byddai'n werthfawr i bawb ddeall amcan y ddogfen. Soniodd am bwysigrwydd amlinellu trefniadau llywodraethu'r grŵp o ran y modd yr oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu cyflawni'r camau gweithredu a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant Lleol. Nod y ddogfen oedd amlinellu'r amcanion cyflawni a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-2028 gan roi sylw i'r strategaethau lleol, y grwpiau partneriaeth a'r partneriaethau arweiniol a oedd eisoes yn adrodd i'r Bwrdd ynghyd â manylion y Swyddog Arweiniol a oedd yn gyfrifol am wneud hynny. Roedd y darn hwn o waith yn caniatáu i ni wneud cysylltiadau â'r grwpiau partneriaeth hyn ac roedd yn golygu bod modd adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn effeithiol, gan nodi'r bylchau a gwella canlyniadau'r grwpiau hyn.

Roedd y ddogfen ddrafft yn dangos yn glir fod llawer iawn o grwpiau partneriaeth eisoes yn cydweithio ar elfennau o'r Cynllun Llesiant. Roedd yn bwysig nad oeddem yn dyblygu'r gwaith hwn ond ein bod yn hytrach yn cryfhau'r darnau hyn o waith gan nodi unrhyw fylchau posibl. Dywedodd NMc fod y ddogfen ddrafft yn dangos mai swyddogion Cyngor Sir Ceredigion oedd y Swyddogion Arweiniol ar gyfer nifer o'r amcanion cyflawni. Byddai'n fuddiol i'r Swyddogion Arweiniol ddod o wahanol sefydliadau fel y gellid sicrhau cydweithio rhwng y partneriaid.

Awgrymodd NMc y byddai'n werth dosbarthu'r fframwaith Llywodraethu a Chyflawni ymhlith y partneriaid fel y gellid diwygio'r ddogfen yn ôl yr angen cyn ei chadarnhau'n derfynol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin.

<u>Adborth y sefydliadau sy'n bartneriaid:</u>

Diolchodd IC i NMc am y ddogfen ddrafft a nododd ei fod yn croesawu'r ffordd hon o weithio wrth fynd ati i gyflawni amcanion y grŵp. Cytunodd PK y byddai'r ddogfen yn ddefnyddiol ac y dylai pob un o'r partneriaid ddangos y ddogfen i'w sefydliadau gan ychwanegu manylion grwpiau a meysydd gwaith a oedd eisoes ar waith. Pwysleisiodd mor bwysig oedd deall y broses weithredol o adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw oedi o ran y canlyniadau yr oedd y grwpiau hyn eisoes yn gweithio arnynt. Cynigiodd RhLlM y byddai'n well

cynnwys teitlau swyddi yn hytrach nag enwau unigolion yng ngholofn y 'Swyddog Arweiniol'. Hefyd, gofynnodd RhLlM a oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r cyfrifoldeb y byddai'r swyddogion a'r grwpiau hyn yn ei ysgwyddo, yn enwedig o ran adnoddau ac amser.

**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Partneriaethau Cyngor Sir Ceredigion yn rhannu fersiwn ddrafft y Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**CAM GWEITHREDU: Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos y fframwaith i'w sefydliadau fel y gallent nodi'r grwpiau partneriaeth yr oeddent yn rhan ohonynt.**

| **34.6** | **Lansio Cynllun Llesiant Lleol 2023-28** |
|---|---|

Gwnaeth NMc atgoffa pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am lansiad y Cynllun Llesiant blaenorol yn Theatr Felinfach yn 2018. Roedd Cadeiryddion Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol yn y lansiad ac roeddent wedi cyflwyno eu syniadau a'u dyheadau o ran yr hyn y byddai'r is-grwpiau yn eu cyflawni. Gan fod Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-2028 bellach yn ei ffurf derfynol, roedd yn bryd ystyried a oedd y Bwrdd am gynnal digwyddiad tebyg neu a oedd yr aelodau o'r farn y byddai gwneud rhywbeth arall yn fwy effeithiol. Cadarnhaodd NMc fod Tîm Partneriaethau Cyngor Sir Ceredigion yn fodlon hwyluso unrhyw drefniadau. Fodd bynnag, byddai angen i aelodau'r Bwrdd yn ehangach ystyried pa fath o ddigwyddiad y byddent yn dymuno ei gynnal a beth fyddai hyd a lled hynny. Dywedodd NMc fod Sir Gaerfyrddin yn bwriadu cynnal gweithdy wrth lansio'r Cynllun Llesiant tra bo Sir Benfro ar hyn o bryd heb benderfynu a fyddai'n cynnal digwyddiad i lansio'r cynllun ai peidio.

Nododd PK nad oedd llawer wedi ymateb i'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ynghylch yr asesiad o lesiant. Serch hynny, ychwanegodd fod llawer o amser ac ymdrech wedi'i roi i'r gwaith o baratoi'r cynllun a gan y byddai'r canlyniadau yn dod â budd i gymunedau, byddai'n werth rhoi gwybod i'r cyhoedd am y lansiad. Hefyd, roedd hyn yn gyfle i ymgysylltu â'r cymunedau a thynnu sylw at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd MH y dylai'r Bwrdd gynnal lansiad gan y gallai hyn esgor ar drafodaethau parhaus â'r cymunedau. Awgrymodd y byddai gan dimau cyfathrebu'r partneriaid statudol syniad go dda o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r cymunedau lleol. Nododd RhLlM, pe cytunid ar ddigwyddiad wyneb yn wyneb ar gyfer y lansiad y byddai'n anodd dewis lleoliad, ond dywedodd y byddai defnyddio ffyrdd effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu yn hollbwysig wrth gynllunio'r digwyddiad. Bu i NMc atgoffa'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y gallai Cyd-gynhyrchu Cymru ein cynorthwyo i ymwneud â chymunedau a hyrwyddo ymgysylltu effeithiol. Hefyd, bu i NMc gytuno fod hwn yn gyfle gwych i sôn am fanteision y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan hyrwyddo rôl y Bwrdd a'i swyddogaeth.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n werth peidio â mynd i ormod o fanylder ynghylch y lansiad hyd nes y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno ar y fframwaith Llywodraethu a Chyflawni gan y byddai hyn yn allweddol o ran esbonio sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein hamcanion.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal digwyddiad i lansio Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2023-2028.**

**CAM GWEITHREDU: Byddai eitem ynghylch dyddiadau a lleoliadau posibl ar gyfer y lansiad yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| 34.7 | **Cyflwyniad am Gyfrifiad 2021** |
|---|---|

Esboniodd CT y byddai'n cyflwyno data Cyfrifiad 2021 a oedd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan ganolbwyntio ar y prif themâu o safbwynt Ceredigion.

Roedd y Cyfrifiad wedi'i gynnal dros ddwy flynedd yn ôl, ar 21 Mawrth 2021. Cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf ym mis Mehefin 2022 ac roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dechrau ar ail gam y broses o gyhoeddi data. Dywedwyd ei bod yn bwysig cofio mai ciplun mewn amser oedd canlyniadau Cyfrifiad 2021. Cynhaliwyd y Cyfrifiad yn ystod pandemig covid-19 pan oedd cyfyngiadau ar deithio yn parhau i fod ar waith ar draws Cymru. Hefyd, roedd cyfnodau clo cenedlaethol yn bodoli, roedd myfyrwyr yn gweithio o bell ac roedd nifer o drigolion yn gweithio o gartref neu ar ffyrlo. Roedd yn debygol iawn felly fod y sefyllfa bresennol yn wahanol iawn i'r hyn a gofnodwyd ar 21 Mawrth 2021.

Roedd y Cyfrifiad hwn yn cynnwys nifer o gwestiynau newydd nad oeddent wedi'u gofyn o'r blaen. Cyfrifiad 2021 oedd y cyfrifiad cyntaf i ofyn cwestiwn am gymuned cyn-filwyr y lluoedd arfog. Hefyd, gwnaeth y Cyfrifiad hwn ofyn cwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd am y tro cyntaf. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth fwy cywir i ni am y boblogaeth lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

**Y data allweddol a drafodwyd:**

Poblogaeth- Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (a gynhaliwyd yn 2011 a 2021), bu gostyngiad o 5.9% ym mhoblogaeth Ceredigion. Roedd ychydig dros 75,900 o bobl yn y sir yn 2011 ond erbyn 2021, roedd y ffigwr wedi cwympo i oddeutu 71,500 o bobl. Roedd Ceredigion yn un o saith awdurdod lleol yng Nghymru lle gwelwyd cwymp yn y boblogaeth. Ar y llaw arall, cafwyd cynnydd o 1.4% ym mhoblogaeth Cymru. Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, roedd oedran cyfartalog pobl yng Ngheredigion wedi codi o 42 oed i 47 oed. Roedd yr oedran cyfartalog yng Ngheredigion ychydig yn uwch na'r oedran cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin ac yn uwch na'r oedran cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan. Yn gyffredinol, bu gostyngiad yn nifer y plant, y bobl ifanc a phobl o oedran gweithio a chynnydd yn nifer y bobl a oedd yn perthyn i'r grwpiau oedran hŷn. Dywedwyd bod nifer o oblygiadau i'r dirywiad cyffredinol a'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio gan gynnwys goblygiadau o ran y farchnad waith, goblygiadau o ran cyllid, ystyriaethau o ran ein diwylliant a'r Gymraeg a phwysau ar wasanaethau lleol megis iechyd a gofal cymdeithasol.

Yng Nghyfrifiad 2021, roedd tua 38,900 o drigolion Ceredigion wedi nodi iddynt gael eu geni yng Nghymru. Roedd hyn yn cyfateb i 54.4% o'r boblogaeth leol ac yn ostyngiad bach ers 2011. Roedd nifer y trigolion yng Ngheredigion a oedd wedi'u geni yng Ngwlad Pwyl wedi codi o ychydig o dan 700 yn 2011 i ychydig o dan 950 yn 2021. Roedd ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod mwy na 2,525 o gyn-filwyr yn byw yng Ngheredigion ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn cyfateb i 4.1% o'r boblogaeth breswyl arferol 16 oed a throsodd. Roedd rhan fwyaf y cyn-filwyr yn byw yn Aberteifi ac Aberporth (5.1% o'r boblogaeth breswyl arferol). Roedd yn debygol bod cyfran uwch o gyn-filwyr yn byw yn ne'r Sir am fod yna gysylltiad hanesyddol â'r lluoedd arfog.

Ethnigrwydd - roedd data'r Cyfrifiad ar ethnigrwydd yn dangos bod newid bach wedi bod yng Ngheredigion yn ystod y degawd diwethaf. Y grŵp ethnig mwyaf o hyd oedd "Gwyn" ac roedd 96.2% o bobl yng Ngheredigion yn 2021 wedi nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp hwn. Roedd hyn ychydig yn is na'r ffigwr yn 2011 lle gwnaeth 96.7% nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp hwn. Gwnaeth

1.5% nodi eu bod yn “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig (o gymharu â 1.4% yn y degawd blaenorol). Bu cynnydd o 0.2 pwynt canran yn nifer y bobl a nododd mai eu grŵp ethnig oedd “Cymysg neu Amlethnig” a “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd a dyma oedd y cynnydd mwyaf ymhlith y grwpiau ethnig lefel uchel yn yr ardal hon.

Hunaniaeth genedlaethol - Yn 2021, yr hunaniaeth genedlaethol fwyaf cyffredin yng Ngheredigion o hyd oedd  “Cymro/Cymraes” yn unig. Roedd bron un ym mhob dau o bobl (46.7%) wedi nodi eu bod yn “Gymro/Cymraes” o gymharu â 46.6% yn 2011.  “Prydeiniwr/Prydeinwraig yn unig” a “Sais/Saesnes yn unig” oedd yr hunaniaethau mwyaf cyffredin wedi hynny. Ceredigion oedd â'r ganran ail isaf yn y wlad o bobl a oedd yn nodi eu bod yn "Gymro/Cymraes a Phrydeiniwr/Prydeinwraig yn unig" a'r ganran chweched isaf o bobl a oedd yn nodi eu bod yn "Gymro/Cymraes yn unig".

Y Gymraeg - Nododd llai na hanner (45.3% / 31,678) o’r preswylwyr arferol yng Ngheredigion 3 oed a throsodd eu bod yn medru siarad Cymraeg. Dyma oedd y ganran isaf erioed i’w chofnodi mewn cyfrifiad ac roedd hyn yn ostyngiad o 3,286 o bobl ers 2011. Tuedd ar i lawr oedd hon a oedd wedi parhau ers 1981. Fodd bynnag, roedd cyflymder y dirywiad yn arafach dros y degawd diwethaf o'i gymharu â chyfnodau eraill. Ar ôl dweud hynny, o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru, Ceredigion oedd â’r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.  Roedd yn bwysig nodi effaith bosib pandemig COVID-19 ar y ffigurau hyn gan y gallai’r pandemig fod wedi effeithio’n negyddol ar yr hyn a gofnodwyd o ran gallu pobl (yn enwedig plant) o ran y Gymraeg.

Statws Gweithgarwch Economaidd - Yn 2021, roedd 2% o breswylwyr Ceredigion (16 oed a throsodd) wedi nodi eu bod yn ddi-waith. 2.3% oedd y ffigwr hwn yn 2011 felly bu gostyngiad bach. Yn 2021, gwnaeth llai na hanner (47%) nodi eu bod yn weithwyr cyflogedig (ac eithrio myfyrwyr llawn amser), o gymharu â 47.0% yn 2011. Roedd y siart yn tynnu sylw at y cynnydd yng nghanran y preswylwyr yng Nghymru a oedd wedi ymddeol dros y degawd (cynnydd o 24.9% i 27.7%).

Tai - Yng Ngheredigion y gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghymru yng nghyfran yr aelwydydd a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain (o 67.6% yn 2011 i 68.6% yn 2021).

Cyfeiriadedd Rhywiol - Cwestiwn newydd a gwirfoddol oedd hwn ac felly, nid oedd modd cymharu’r atebion â data’r gorffennol. Roedd Cyfrifiad 2021 yn dangos bod yr amrywiaeth rhywiol yng Ngheredigion yn fawr a bod hyn yn cymharu’n ffafriol ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill Cymru. Roedd 4.9% o boblogaeth Ceredigion wedi nodi cyfeiriadedd rhywiol LGB+, sef yr ail gyfran uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Caerdydd oedd ar y brig lle’r oedd 5.3% wedi nodi cyfeiriadedd LHD+. O ddadansoddi’r data ymhellach, Ceredigion oedd â’r gyfran fwyaf o bobl drwy Gymru a oedd wedi nodi eu bod yn ddeurywiol.

Addysg - roedd y gweithlu yng Ngheredigion yn parhau i fod yn un a feddai ar gymwysterau da a Cheredigion oedd yr awdurdod lleol â’r gyfran leiaf o breswylwyr nad oedd ganddynt gymwysterau (14.7%) - roedd hyn 4.3 pwynt canran yn is na ffigurau 2011.

Iechyd - Yn 2021, nododd 48.0% o breswylwyr Ceredigion bod eu hiechyd yn “dda iawn”. Roedd hyn yn well na’r ffigwr o 47.8% yn 2011.  Cododd y nifer a oedd wedi nodi eu hiechyd yn “dda” o 31.8% i 32.8%. Nododd 1.3% (ffigwr tebyg i 2011) o breswylwyr Ceredigion bod eu hiechyd “yn wael

iawn" a chafwyd gostyngiad o 4.8% i 4.2% yn y nifer a nododd bod eu hiechyd yn "wael". Er ein bod wedi gwell gwelliannau dros y degawd, roedd yn werth nodi effaith bosibl pandemig covid-19 a'r modd y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar ganfyddiad pobl o'u hiechyd a'r ffordd yr oeddent yn ei ystyried.

Gofal di-dâl - Ers Cyfrifiad 2011, rydym wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y preswylwyr yng Ngheredigion a oedd yn darparu gofal di-dâl. Serch hynny, wrth ddadansoddi nifer yr oriau o ofal a ddarperir, roedd tueddiadau gwahanol yn dod i'r amlwg. Roedd y nifer a nododd eu bod yn darparu hyd at 19 awr o ofal di-dâl bob wythnos wedi lleihau rhwng 2011 a 2021. Ar y llaw arall, roedd y nifer a nododd eu bod yn darparu 20 awr neu fwy o ofal di-dâl wedi cynyddu. Roedd gan yr ardal hon y gyfran uchaf o bobl a oedd yn darparu hyd at 19 awr o ofal di-dâl bob wythnos a'r bumed gyfran isaf o bobl a oedd yn darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl bob wythnos.

Anabledd - Yng Ngheredigion y gwelwyd y cynnydd pwynt canrannol ail mwyaf, o blith holl siroedd Cymru, yng nghyfran y preswylwyr a oedd yn nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu rhywfaint. Yn ystod y cyfnod hwn, cododd Ceredigion uwchben pump o awdurdodau lleol gan gynnwys Sir Gaerfyrddin ac Abertawe ac erbyn hyn, Ceredigion oedd â'r gyfran pumed uchaf o bobl a oedd yn nodi eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu rhywfaint.

<u>Pwyntiau i'w nodi:</u>
Nododd CT, er bod 47% o boblogaeth Ceredigion wedi derbyn copi papur o Gyfrifiad 2021 i'w gwblhau, fod ganddynt hefyd yr opsiwn i gwblhau'r Cyfrifiad ar-lein. Dywedodd HLL y byddai dadansoddiad o'r modd yr oedd unigolion wedi dewis cwblhau'r Cyfrifiad yn ddiddorol. Cadarnhaodd RhLlM fod yna newid yn nifer y myfyrwyr yr oeddent yn eu gweld ac y gallai hyn fod oherwydd y cyrsiau ychwanegol yr oedd y Brifysgol yn awr yn eu cynnig. O edrych at y dyfodol, roedd yn bwysig cydnabod manteision annog y myfyrwyr hyn i fyw a gweithio yn yr ardal ar ôl iddyn nhw gwblhau eu hastudiaethau.

| **34.8** | **Unrhyw Fater Arall** |
|---|---|

Ni chodwyd yr un mater arall.

| **34.9** | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf** |
|---|---|

13 Mehefin 2023
4 Medi 2023
4 Rhagfyr 2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 22 Mai 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron |
| **TEITL:** | Dyletswydd Trais Difrifol |
| **PWRPAD YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu am y Ddyletswydd Trais Difrifol |
| **Y RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er mwyn cael gwybod am y newidiadau deddfwriaethol sy'n cael effaith ar waith y Cyngor a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion |

**CEFNDIR:**
Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ar 31 Ionawr 2023 ac mae'n cynnwys y gofynion a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd ar **awdurdodau penodedig** i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol.

Mae'r awdurdodau penodedig yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, y Sector Heddlua a Chyfiawnder (timau prawf a throseddu ieuenctid). Y sefydliadau hyn sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd ac sy'n gyd-atebol am gyflawni prif gerrig milltir yr arian grant rhanbarthol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i weithredu gofynion y Ddyletswydd.

Yn ogystal â'r awdurdodau penodedig a nodir uchod, mae yna **awdurdodau perthnasol** sy'n cynnwys awdurdodau addysgol (ynghyd ag awdurdodau dalfa ieuenctid a charchardai). Mae gofyn i'r awdurdodau hyn gydweithio â'r awdurdodau penodedig, yn ôl yr angen, i gyflawni'r ddyletswydd a hefyd rhaid i'r awdurdodau penodedig ymgynghori â nhw wrth baratoi'r strategaeth.

Rhaid i i awdurdodau penodedig nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyhyd ag y bo modd gwneud hynny), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Dylai'r strategaeth gynnwys atebion pwrpasol i atal a lleihau trais difrifol. Rhaid cadw golwg ar hyn ac adolygu yn flynyddol a'i ddiweddaru pan fo angen.

**Asesiad o Anghenion Strategol**
I fwydo i'r broses, dylai awdurdodau penodedig wneud dadansoddiad ar y cyd, yn seiliedig ar dystiolaeth o achosion trais difrifol o fewn eu hardal, a defnyddio'r dadansoddiad hwn i ddatblygu Asesiad o Anghenion Strategol a ddylai lywio'r strategaeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o ddata, er enghraifft gallai gynnwys data lleol a chenedlaethol am droseddau, data'r

cyfrifiad, a data ysbytai a gofal sylfaenol. O safbwynt awdurdod lleol, gallai hefyd gynnwys data addysgol megis presenoldeb, data am atal a gwahardd disgyblion, a data am ofal cymdeithasol plant. Bydd yr Asesiad o Anghenion Strategol yn cynnwys dealltwriaeth gyffredin o'r carfanau sydd fwyaf agored i drais difrifol a bydd angen i'r strategaeth leol ddangos sut mae pob ardal yn cyfeirio adnoddau i'r boblogaeth ddiffiniedig sydd fwyaf angen cymorth.

**Diffinio Trais Difrifol**
Nid yw'r Ddyletswydd yn diffinio trais difrifol oherwydd mae'n fater i bob ardal unigol wneud hynny – bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth leol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Strategol.

Wrth ystyried yr Asesiad, mae'n eglur nad yw trais yn gyfyngedig i drais corfforol yn erbyn person. Mae'n darparu, at ddibenion y Ddyletswydd, bod trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhyw, trais yn erbyn eiddo a bygythiadau o drais.

At hynny, mae Strategaeth Trais Difrifol 2018 yn nodi fod Trais Difrifol yn ymwneud â mathau penodol o droseddau megis lladd, trais â chyllyll a gynnau, a meysydd lle mae trais difrifol neu ei fygythiad yn gynhenid, megis mewn gangiau a llinellau cyffuriau. Mae hefyd yn cynnwys bygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd o'r wlad, megis defnyddio sylweddau cyrydol fel arf.

**Dull o ran Iechyd Cyhoeddus**
Mae'r ddyletswydd hon yn creu 'dull iechyd cyhoeddus' newydd o fynd i'r afael â Throseddau Treisgar gan nodi'r hyn sy'n achosi trais a chanfod ymyriadau sy'n gweithio er mwyn atal trais rhag lledaenu. Mae'r 'dull iechyd cyhoeddus' yn cynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi ymyriadau cynnar ar waith i atal pobl rhag mynd ynghlwm â throseddau treisgar.

**CYDWEITHREDU A CHYNLLUNIO**
Bwriad y Ddyletswydd yw creu'r amodau cywir i awdurdodau gydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd, gan ddefnyddio partneriaethau presennol lle bo modd a rhannu gwybodaeth a chymryd camau effeithiol, cydlynus, yn eu hardaloedd lleol. Bydd pob sefydliad ac asiantaeth sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd yn atebol am eu gweithgarwch a'u cydweithredu.

Dyma'r amserlen ar hyn o bryd:
- 31 Ionawr 2023 – dechrau'r Ddyletswydd Trais Difrifol
- 31 Mawrth 2023 – cadarnhau'r cytundeb partneriaeth
- 28 Ebrill 2023 – llunio fersiwn dros dro o'r cynllun cyflawni a chadarnhau'r defnydd a wneir o gyllid y Swyddfa Gartref
- 29 Medi 2023 – cytuno ar fersiwn uwch o'r cynllun cyflawni
- 31 Ionawr 2024 – cwblhau'r Asesiad o Anghenion Strategol o ran Trais Difrifol
- 31 Ionawr 2024 – cwblhau'r Strategaeth Leol (gan gynnwys fersiwn derfynol o'r cynllun cyflawni)

Er gwybodaeth, mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2022 i'w cael yma, yn Gymraeg a Saesneg: Dyletswydd Trais Difrifol - GOV.UK (www.gov.uk) (mae Canllawiau penodol i Gymru i'w gweld o dudalen 20 ymlaen).

**Cyllid**
Dyrannwyd cyllid i ranbarth Dyfed-Powys gan y Swyddfa Gartref i weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a fydd hefyd yn darparu cymorth, yn monitro gweithgarwch ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cadarnhawyd cyllid gan y Swyddfa Gartref hyd at 2024/2025, ar sail y dyraniadau blynyddol canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 2022/2023: | Costau llafur £30,000 | Costau heb gynnwys llafur: £0 |
| 2023/2024: | Costau llafur £180,000 | Costau heb gynnwys llafur: £39,737.48 |
| 2024/2025: | Costau llafur £77,041.71 | Costau heb gynnwys llafur: £111,655.25 |

Ar hyn o bryd, mae'r adnodd yn cael ei ddyrannu i gynyddu capasiti dadansoddi Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn paratoi a chyflawni’r Asesiad rhanbarthol o Anghenion Strategol. Ar ben hyn, y bwriad yw defnyddio’r cyllid i gydlynu'r cynllun cyflawni, y strategaeth a’r llifoedd gwaith cysylltiedig yn y rhanbarth.

**Gweithredu**
Mae Crest Advisory wedi ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref i weithio gyda’r sefydliadau a fanylir yn y Ddyletswydd Trais Difrifol (noder uchod) a’r partneriaid lleol yn ystod 2023 i weld a ydynt yn barod ar gyfer y Ddyletswydd ac i roi cymorth pwrpasol i ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae partneriaid ledled y rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, wedi mynychu cyfarfodydd gyda’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae arweinwyr Trais Difrifol wedi’u nodi mewn sefydliadau allweddol. Yr Arweinydd Strategol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw Barry Rees, sef Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a’r ymarferwyr a enwebwyd yw Diana Davies (Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad) a Tim Bray (Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil).

Gellir defnyddio’r trefniadau partneriaeth presennol i gyflawni'r Ddyletswydd hon gan fod y Canllawiau Statudol yn nodi nad oes rheidrwydd creu partneriaethau newydd. Felly cytunwyd mai'r lle cywir i arwain ar gynllunio a gweithredu gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol yw’r strwythur presennol ar gyfer Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol, a’r Bwrdd Rhanbarthol Trais Difrifol.

Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad a'r Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil yn mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol ar hyn o bryd, a byddant yn parhau i wneud hynny ac i adrodd yn ôl lle bo angen.

At hynny, i gydnabod rôl hanfodol addysg wrth ddiogelu, argymhellir bod cynrychiolydd o fyd addysg strategol yr ardal yn mynychu’r cyfarfodydd i drafod y Ddyletswydd Trais Difrifol. Bydd hyn yn gymorth i gynnig dolen rhwng yr awdurdodau cyfrifol penodedig a sefydliadau unigol, a rhwng Cwricwlwm newydd Cymru a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno o ran cefnogi maes llesiant.

Cynigir bod y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet, er gwybodaeth, ar 6 Mehefin 2023.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os Naddo, nodwch pam** | Naddo, nid yw'r adroddiad yn newid Polisi na Strategaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br><br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br><br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLIAD:**

**i.** Nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion ac i'r partneriaethau perthnasol a fynychir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

**RHESWM AM YR ARGYMHELLIAD:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ddeall y dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ymateb iddynt ac ystyried.

**Enw Cyswllt:** Naomi McDonagh/ Tim Bray
**Swydd:** Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil
**Dyddiad yr Adroddiad:** 22 Mai 2023
**Acronymau:**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **Y RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Er mwyn cyflawni ei adolygiad chwe-misol o'r modd y mae'r Awdurdod yn defnyddio'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)** |

**CEFNDIR:**

Daethpwyd ag adroddiad i'r Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2022 i gyflwyno'r Polisi RIPA diwygiedig a diweddariad yn dilyn arolygiad gan yr IPCO.

**Monitro gan Aelodau:**

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am fonitro defnydd y Cyngor o Ddeddf RIPA.

Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaraf ar weithgarwch RIPA i'r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2022.

Fel rheol, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob chwe mis.

### Y SEFYLLFA BRESENNOL:

**1) Gweithgarwch RIPA**

Rhwng 4 Gorffennaf 2022 a 26 Ebrill 2023 cafodd un cais am wyliadwriaeth gyfeiriedig ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Cafodd yr awdurdodiad ei gymeradwyo gan ynadon ar 13 Ionawr 2023 a daeth i ben ar 13 Ebrill 2023 (3 mis). Gwnaed adolygiad ar 11 Ebrill 2023 a ddaeth i'r casgliad na ddylai'r awdurdodiad gael ei adnewyddu.

**2) Polisi RIPA**

Cafodd y Polisi RIPA diwygiedig ei nodi gan y Pwyllgor hwn ar 23 Tachwedd 2022 ac ers hynny mae wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023.

Yn ogystal â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 23 Tachwedd 2022, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo dau newid pellach i'r adran a geir yn y polisi RIPA ar y Weithdrefn ar gyflwyno cais am Awdurdodiad Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (gweler adroddiad y Cyngor am ragor o wybodaeth). Cymeradwywyd y newidiadau ychwanegol hyn cyn cyfarfod y Cyngor a hynny gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**3) Diweddariad i Staff**

Ar 12fed of Fai 2023 cafodd diweddariad RIPA gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ei gyhoeddi ar Newyddion Cerinet a hynny ar gyfer holl staff y Cyngor. Roedd hwn yn hysbysu'r staff bod Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Corfforaethol y Cyngor ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Data Cyfathrebu, ar sail Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) RHAN II, wedi cael eu diweddaru.

Roedd y diweddariad hwn hefyd yn rhoi braslun i'r staff o'r ffurflenni a'r canllawiau RIPA a oedd ar gael ar CeriNet.

Bwriedir cylchredeg negeseuon ar Cerinet bob chwe mis i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn ymwybodol o'r angen i ystyried RIPA.

**4) Newyddlen yr IPCO**

Mae'r IPCO wedi cyhoeddi ei newyddlen chwarterol ar gyfer gwanwyn 2023. Mae ar gael ar wefan yr IPCO - https://www.ipco.org.uk/publications/correspondence/ - ac fe'i hatodir i'r adroddiad hwn ar ffurf **Atodiad 1.**

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os Naddo, nodwch pam** | Naddo |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ac nid yw'n newid polisi na strategaeth.<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLIAD:**
Bod y pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**RHESWM AM YR ARGYMHELLIAD:**

I sicrhau fod y pwyllgor yn cael y diweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a'r gwaith o weithredu'r polisïau.

**Atodiadau:**
**Atodiad 1** – Newyddlen chwarterol yr IPCO, gwanwyn 2023.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 27/04/2023 |
| **Acronymau:** | RIPA: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000<br>SRO: Uwch-swyddog Cyfrifol<br>CHIS: Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol<br>IPCO: Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

IPCO

Investigatory Powers Commissioner's Office

# Quarterly Newsletter: Spring 2023

## A Message from the Investigatory Powers Commissioner, Sir Brian Leveson:



This month, we published our 2021 Annual Report, which contains information on inspection findings, errors and policy matters. I am pleased to say that we have seen positive engagement from public authorities, with high levels of compliance, and 2021 marks the first year in which there were no serious errors since IPCO began reporting. Where we do pick up compliance shortcomings, I am confident that measures are being taken to address these concerns.

In December 2022, I wrote to all law enforcement agency Chief Officers with an update on progress towards achieving full compliance with the Safeguards chapters of the Surveillance and CHIS Codes of Practice. Continued efforts have been noted in all the public authorities we inspect but very few organisations have yet received a clean bill of health.

Some are now closer to this, including South Wales Police, South Yorkshire Police and the Metropolitan Police Service. Good compliance with data handling safeguards has also been noted in some local authorities and other bodies, including Worcester City and Worcestershire County, Leicestershire County and Cheshire West & Chester, the NHS Scotland Counter Fraud Service and the DVSA. However, some were still lacking meaningful progress and, as a result, have undergone additional inspections on this area of compliance.

I have also given clear direction on the review periods for CHIS material. I consider it good practice that regular, meaningful review is undertaken of all information that is held, even if decisions are then taken to retain. I have, therefore, made clear that I expect to see an initial review of individual CHIS records after five to ten years, repeated at similar intervals thereafter, and pragmatic decisions reached as to retention or destruction on a CHIS-by-CHIS basis.

Being almost five years on from the introduction of the Safeguards Chapters in the Codes, this should now be approaching a stage of being 'business as usual' and IPCO inspections will take a proactive approach, to identify that retention, review and destruction is indeed being practised.

## Updates from IPCO:

- We have published an Advisory Notice explaining how our oversight of the UK-US Data Access Agreement is carried out.
- The Home Office has published its Statutory Report on the Investigatory Powers Act. Lord Anderson has now been appointed to carry out an independent review of the legislation. He published his Terms of Reference and areas of consultation in February via Twitter. We will engage with Lord Anderson throughout his review.
- Sir Nigel Sweeney joined us as a Judicial Commissioner in February and will serve for the next three years. This follows on from his appointment as a temporary Commissioner at the start of the pandemic under the Coronavirus Act 2020.
- Please be reminded that although IPCO is not itself subject to the Freedom of Information Act ('FOIA'), Public Authorities who are subject to FOIA must respond to requests for disclosure of our inspection reports as if they were their own documents. Following receipt of any such request, in the first instance, the SRO should bring the matter to the attention of the IPCO Data Protection Officer (at: info@ipco.org.uk), before making any disclosure. Police forces should also bring the matter to the attention of the NPCC FOI Central Referral Unit. No disclosure should take place until both parties have fully been consulted.

## Spotlight On: Unnecessary Geographical Limitations on Directed Surveillance

RIPA/RIP(S)A describes surveillance as including the monitoring, observing or listening to persons, their movements, conversations or other activities and communications and is concerned with ensuring that this activity does not disproportionately infringe upon the right to respect for privacy.

Authorising Officers (AOs) will rightly seek to limit the scope of authorised directed surveillance by citing limitations which may include listing locations where observations are to take place.

For static surveillance, this can enable a more accurate assessment of likely collateral intrusion.

Defining geographical locations for mobile surveillance may be more problematic, is often unnecessary and can lead to bureaucracy through the need for revision via interim reviews.

Nonetheless, AOs should still take into consideration geographical factors as part of collateral intrusion. For example, where surveillance regularly commences from the same location this may give rise to elevated collateral intrusion (for example, a subject of interest's home address where family members reside). Alternatively, surveillance may be likely to move from a low to high collateral intrusion location.

## Process reminder: Warrants issued under the urgency procedure without judicial prior approval

- IPCO should be informed of a warrant issued under the urgency procedure as soon as reasonably practicable. A Judicial Commissioner (JC) should be able to consider the conduct authorised under the warrant at the earliest opportunity.
- If IPCO is informed of an urgent warrant on the same day that it is issued (as should be the norm), you should complete the IPCO summary sheet requesting a 'routine' decision in accordance with IPCO's Service Level Agreement, i.e. a decision within 48 hours. This will allow a JC to make their decision within the statutory timeframe – three working days after the day on which the urgent warrant was issued.
- A 'routine' decision may not be appropriate if there is a delay in notifying IPCO, or if there are good reasons for IPCO being notified closer to the third working day (on or before which the JC must consider the application). In such circumstances, please utilise IPCO's prioritisation indicators accordingly - priority (for a decision within 24 hours) or immediate (for a decision within 2 hours).
- Notification of an urgent warrant should not be delayed pending a decision to cancel or renew the warrant.

@IPCOffice info@ipco.org.uk www.ipco.org.uk

### Contact us

General queries: 0207 389 8900 Email: info@ipco.org.uk

Press : 0207 389 8999 Email: ipcopressoffice@ipco.org.uk

### Resources

IPCO Publications | Government Codes of Practice | IPCO Announcements

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Wyn Evans (Is-gadeirydd), Marc Davies, Endaf Edwards, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes a Ceris Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Keith Henson ac Wyn Thomas.

**Swyddogion yn bresennol:** Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad; Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil ; Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr, CAVO; Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am-11.42am)

1 **Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth, Caryl Roberts a Chris James am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a Chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bryan Davies, cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran yr adroddiad ynghylch Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 i ben ar 31 Ionawr 2023. Gwnaed newidiadau a gwelliannau gan gynnwys y rhai a awgrymwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023, ystyriwyd y newidiadau arfaethedig gan bob sefydliad sy'n aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r bwriad o

gymeradwyo'r Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Hazel Lloyd-Lubran, Naomi McDonagh a Diana Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roeddent yn disgwyl fwy o ymateb i'r ymgynghoriad; fodd bynnag, cydnabuwyd mai un ffactor posib ar gyfer y nifer isel o ymatebion oedd bod pobl wedi blino ar ymgynghoriadau. Yn ogystal, gan fod gwaith ymgynghori gyda phartneriaid wedi'i wneud yn gynnar yn y broses, roedd llai o adborth oddi wrth y cyrff hyn gan eu bod nhw eisoes wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun.
- O ran y broses ymgynghori, cysylltwyd ag ystod o sefydliadau, cynhaliwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd y manylion eu cynnwys ar dudalen ymgynghoriadau'r Cyngor ar y we, a soniwyd am yr ymgynghoriad mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Cwblhawyd ymarfer ymgysylltu gyda 13 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd ar draws y sir ac ymgynghorwyd â grwpiau megis y Fforwm Anabledd. Roedd posteri a chopïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden / canolfannau llesiant. Roedd cyfrifoldeb ar bob partner o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod safbwyntiau pobl yn cael eu clywed. Wrth symud ymlaen, byddai trafod ac ymgysylltu'n barhaus â chymunedau'n fuddiol ynghyd â newid sut y caiff safbwyntiau a barn eu casglu.
- Er ei bod hi'n bwysig ystyried y 12% nad oedd yn cytuno mai'r 5 amcan llesiant oedd y blaenoriaethau cywir, roedd hi'n hyfryd nodi bod 88% yn cytuno. Roedd hi hefyd yn bwysig ystyried y niferoedd a oedd ynghlwm wrth hyn yn hytrach na'r canrannau gan fod y gyfradd ymateb yn isel. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi gwneud sylwadau ynghylch cadernid yr Asesiad o Lesiant Lleol gan gynnwys y gwaith ymgysylltu a arweiniodd at ffurfio'r cynllun, ac felly roedd y swyddogion yn hyderus fod y blaenoriaethau'n gywir ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r partneriaid a'r cyhoedd.
- Codwyd pryderon am y ffaith fod Llywodraeth Cymru'n uchelgeisiol gyda'i chynlluniau, ond nid oedd unrhyw gyllid ar gael i awdurdodau lleol i gyflawni hyn. Byddai'r Cynllun Llesiant Lleol yn arwain at gydweithio pellach rhwng Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru a gobeithiwyd, drwy ganolbwyntio ar y blaenoriaethau, y byddai hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun. Nododd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod Cabinet) fod Llywodraeth Cymru'n mynd i'r Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd ac yn cyfrannu at y trafodaethau ond cytunodd fod mwy o gydweithio'n bwysig.
- Roedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gâr yn gweithio'n annibynnol ond yn agos er mwyn sicrhau bod cysondeb rhwng yr hyn y mae pawb yn ei wneud. Efallai bod y blaenoriaethau'n amrywio yng Nghynllun Llesiant Lleol bob Bwrdd,

ond roedd y blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau cyrff unigol yn cael eu hystyried yn y broses o ddatblygu'r cynllun.

- O ran monitro'r gwaith, caiff Adroddiad Blynyddol ei greu sy'n manylu ar berfformiad y Bwrdd, a chaiff ei anfon at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a derbynwyr statudol eraill bob blwyddyn.
- Roedd aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi bod yn gyson gyda 4 sefydliad statudol (yn unol â'r cyfarwyddyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a nifer o sefydliadau eraill a wahoddwyd i gymryd rhan. Ar hyn o bryd roedd cyfle i adolygu'r aelodaeth o ran y sefydliadau a wahoddir ac i sicrhau bod y bobl a'r sefydliadau cywir yn gwneud gwaith ar ran y Bwrdd. Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydy cynnwys pobl a allai wneud gwahaniaeth pan fo'r trafodaethau yn fwy lleol.

Estynnodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i Naomi McDonagh wrth iddi adael ei rôl gyda'r awdurdod a diolch iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig.

Cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran gofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 i'r Pwyllgor. Cyfeiriwyd at y pwyntiau canlynol a drafodwyd yn y cyfarfod:

- Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch lefel yr ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a chynigion ar gyfer y dyfodol.
- Cafwyd cyflwyniad am lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch lleoliad yr ysbyty newydd ar gyfer gofal dwys a gofal wedi'i gynllunio. Nodwyd y byddai grŵp rhanddeiliaid yn cael ei greu i drafod hygyrchedd a thrafnidiaeth i'r safle; fodd bynnag gobeithiwyd y gellid ehangu cwmpas y grŵp tu hwnt i'r ysbyty newydd yn unig. Yn ogystal, trafodwyd pwysigrwydd cael gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol.
- Diweddariadau ar Brosiectau Peilot y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Diweddariad ynghylch system data Gorwel a diddordeb Llywodraeth Cymru mewn cael adnodd tebyg yn genedlaethol.
- Agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill.

Esboniodd y Cadeirydd fod gweithdy wedi cael ei gynnal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac aelodau etholedig ynghylch lleoliad yr ysbyty newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

**4 Adroddiad ynglyn â Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Matthew Vaux, esboniodd Harry Dimmack mai'r tro diwethaf y cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynghylch

newidiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban oedd ar 16 Mai 2018, ac yna cymeradwywyd y newidiadau gan y Cabinet ar 19 Mehefin 2018. Rhoddwyd trosolwg o'r newidiadau allweddol, a oedd wedi'u marcio yn Atodiad 1. Byddai'r cyfeiriad ar gyfer Archwilio Cymru'n cael ei newid cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Harry Dimmack. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Gan mai mân newidiadau yn unig oedd i'r polisi, roedd cyflwyno'r polisi i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn ddigonol.
- Pe bai person eisiau codi pryder yn allanol, roedd y manylion cyswllt perthnasol wedi'u nodi ar dudalen 8 y polisi.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn Atodiad 1, yn amodol ar ddiweddaru'r manylion cyswllt ar gyfer Archwilio Cymru.

**5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**6 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Bu i Gadeirydd pob Pwyllgor (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd), ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

1. <u>Pwyllgor Cydlynu</u>
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am flaenraglen waith y Pwyllgor Cydlynu.

2. <u>Cymunedau sy'n Dysgu</u>
   Nododd y Cadeirydd fod adborth ynghylch proses pennu'r gyllideb ar gyfer 23/24 a Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion wedi'u cyflwyno yn ystod cyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror 2023, wedi i'r materion gael eu hystyried gan y Pwyllgor. Rhoddwyd diweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor a nodwyd bod Aelodau wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug ac Ysgol Bro Siôn Ciwlt ar 1 Chwefror 2023 fel rhan o'r ffrwd waith.

3. <u>Cymunedau Ffyniannus</u>
   Esboniodd y Cadeirydd fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cyfarfod ar 30 Ionawr 2023 ac yna cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar 21 Mawrth 2023 i drafod casglu gwastraff ymhellach gyda swyddogion. Rhoddwyd diweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus. Gwahoddwyd Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod i gyfarfod ym mis Mehefin i drafod Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol /

Llifogydd, ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd i wahodd Dŵr Cymru a Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Gwasanaeth – Polisi Cynllunio, i'r cyfarfod hefyd.

4. Adnoddau Corfforaethol
Esboniodd y Cadeirydd fod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch Ffermydd y Cyngor yn parhau. O ran y rheolau ynghylch Parhau Perygl Nitradau (NVZs) ar gyfer y sector amaethyddol, eglurodd y Cadeirydd fod swyddogion wedi ymweld â'r ffermydd ac wedi cynnal asesiadau. Rhoddwyd diweddariad ynghylch y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023. O gofio'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb, anogodd y Cadeirydd bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ystyried hyn wrth symud ymlaen ac i chwilio am feysydd lle gellid gwneud arbedion.

5. Cymunedau Iachach
Yn absenoldeb y Cadeirydd, rhoddodd y Cynghorydd Ceris Jones, yr Is-gadeirydd, ddiweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach. Nododd y Cynghorydd Ceris Jones y byddai'n cadarnhau teitl yr adroddiad ynghylch archwilio safleoedd bwyd, gan fod y flaenraglen waith yn wahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mai 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 15/5/2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cydlynu*** | | | |
| 22 Mai 2023 | Dyletswydd Trais Difrifol<br><br>Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023<br><br>Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)<br><br>CYSUR / CWMPAS | | |
| 29 Mehefin 2023 | Fframwaith rheoli perfformiad<br><br>Adolygiad IIA<br><br>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig | | |
| 11 Medi 2023 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Canlyniad Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn 2023 a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol<br><br>Adroddiad Blynyddol craffu | | |
| 6 Tachwedd 2023 | | | |
| 19 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 4 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mai 2023 | Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu<br><br>Diweddariad ar Gofal Cartref<br><br>Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru<br><br>Trefniadau mabwysiadu ar y cyd | Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Iwan Davies/Elen James<br><br>Audrey Somerton-Edwards | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 3 Gorffennaf 2023 | Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant<br><br>Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd<br><br>Taliadau Uniongyrchol<br><br>Adroddiad ar y Gofrestr Tai<br><br>Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal | James Starbuck<br><br>Carwen Evans<br><br>Donna Pritchard<br><br>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips<br><br>Gethin Jones | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 18 Medi 2023 | Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd<br><br>Cynllun Gweithredu Dementia<br><br>Strategaeth Tai<br><br><br><br>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23 | Donna Pritchard<br><br>Donna Pritchard<br><br>Llyr Hughes<br><br><br><br>Audrey Somerton-Edwards | Cyn-Cabinet<br><br><br><br>Cyn-Cabinet |
| 22 Tachwedd 2023 | | | |
| 22 Chwefror 2024 | Paratoi’r Gyllideb | | |
| 11 Mawrth 2024 | | | |
| Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol | | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 12 Mehefin 2023 | Trefi SMART<br><br>Diweddariad Cysylltedd Digidol | Arwyn Davies<br><br>David Owen | Ar gais y Cadeirydd<br><br>Ar gais y Cadeirydd |
| 19 Gorffennaf 2023 | Polisi'r Menopos<br><br>Polisi Rheoli Straen<br><br>Polisi Gwyliau Blynyddol diwygiedig<br><br>Diweddariad ar Clic (wedi gofyn am) | Geraint Edwards<br><br>Joy Lake/Anna Gawthorpe | Cyn Cabinet<br><br>Cais |
| 19 Hydref 2023 | Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu<br><br>Mynd I'r Afael â Chaledi<br><br>Diweddariad ar weithio'n Hybrid canlyniadau yr ymgynghoriad<br><br>Adroddiadau Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith | Cathryn Morgan<br><br>Cathryn Morgan<br><br>Russell Hughes-Pickering/Geraint Edwards<br><br>Marie Niege-Hadfield<br><br>Geraint Edwards | |
| 7 Rhagfyr 2023 | | | |
| 23 Chwefror 2024 | Paratoi ar gyfer y Gyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 Mai 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | • Technegol Gwybodaeth – ar y gofrestr risg<br>• Adroddiad ar yr Ystad Corfforaethol | | |
| Grwp Gorchwyl a Gorffen | Ffermydd y Sir – yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. | | |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| Cymunedau sy'n Dysgu | | | |
| 8 Mehefin 2023 | Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru<br><br>Dogfen trosglwyddo ADY<br><br>Cofnodion cyngor ieuenctid | | |
| 6 Gorffennaf 2023 | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>Adolygiad ol 16 – Meinir yn gwneud y papur, ond angen trefnu drwy Barry pwy fydd yn ei gyflwyno | | |
| 28 Medi 2023 | | | |
| 27 Tachwedd 2023 | | | |
| 22 Chwefror 2024 1.30pm | Cyllideb | | |
| 9 Mai 2024 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd y dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae<br><br>Partneriaeth Addysg  Canolbarth Cymru (adroddir bob hydref) | | |
| Ffrydiau Gwaith | 1. Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu’n effeithiol<br><br>2. Sicrhau ecwiti i bob disgybl<br><br>3. Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â’n blaenoriaethau | | |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 22 Mehefin 2023 | Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau)<br><br>Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau<br><br>Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi | Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru | |
| 31 Gorffennaf 2023 | Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o’r cyfarfod cyllideb)<br><br>Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Dwr Cymru | | |
| 23 Hydref 2023 | | | |
| 18 Rhagfyr 2023 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 23 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 18 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br>Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm<br><br>CDLI<br><br>Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus | | |